

# **Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Hunanasesiad o Berfformiad: Gorffennaf – Medi 2022**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y cyngor yn erbyn ei amcanion a meysydd llywodraethu rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022, yn cynnwys ein defnydd o egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

# Cynnwys

Crynodeb o'r sefyllfa	4
Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion	6
Llesiant a Chydraddoldeb	9
Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da	13
Llesiant a Chydraddoldeb	16
Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid	20
Llesiant a Chydraddoldeb	26
Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i diogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd	30
Llesiant a Chydraddoldeb	35
Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny	42
Llesiant a Chydraddoldeb	46
Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy	52
Camau Gwella	79
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	81

## Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth, neu i adael i ni wybod eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, gallwch gysylltu â ni:

**Drwy E-BOST:** [timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk](mailto:timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk)

**Dros y FFÔN:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

### **Drwy'r POST:**

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,

Cyngor Sir Ddinbych,

Blwch Post 62,

Rhuthun,

LL15 9AZ

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y Gymraeg.

### **I gael y wybodaeth ddiweddaraf:**

Hoffwch ni ar [Facebook](#)

Dilynwch ni ar [Twitter](#)

Ewch i [wefan y Cyngor](#) i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i [Borth Sgwrs y Sir](#) a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i [Newyddlen Llais y Sir](#)

## Crynodeb o'r sefyllfa

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob blaenoriaeth yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi'i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail eu statws.

**Tai:** Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Da

**Clymu Cymunedau:** Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

**Cymunedau Cryf:** Mae'r cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Rhagorol

**Yr Amgylchedd:** Deniadol ac wedi'i diogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Rhagorol

**Pobl Ifanc:** Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

**Iechyd Corfforaethol:** Mae'r cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

## Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull arferol o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwarter uchaf (y perfformwyr gorau) o'r wybodaeth gymharol yn genedlaethol a gosod hwnnw fel y trothwy lle caiff perfformiad ei ystyried yn 'Rhagorol'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Rhagorol', ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, ewch i weld y [Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan](#).

## **Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion**

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Da

### **Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur**

Ar ddiwedd mis Medi, roedd yna 2,190 o bobl ar restr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH), sy'n gynydd o'r cyfnod diwethaf, mis Ebrill i fis Mehefin (2,075). Mae ein hail linydd mesur SARTH yn ystyried nifer y bobl a gaiff eu cartrefu o'r gofrestr naill ai i stoc y cyngor neu eiddo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Sir Ddinbych. Roedd cyfanswm o 122 o bobl wedi derbyn tŷ, sydd wedi dyblu ers y cyfnod diwethaf, lle roedd 61 o bobl wedi derbyn tŷ.

### **Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect**

#### **Yn profi rhwystrau: Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun**

Mae gwaith dymchwel Awelon wedi mynd rhagddo ac mae Reed Construction ar y safle. Mae Grŵp Cynefin yn gweithio gyda phartneriaid i geisio arian grant sy'n ofynnol er mwyn iddynt uwchraddio cyfleusterau yn y llety presennol yn Llys Awelon i'r un safon â'r fflatiau newydd sy'n cael eu hadeiladu. Rydym yn parhau i weithio tuag at ddyddiad cwblhau diwygiedig Chwefror 2024.

#### **Ar y trywydd iawn: Tai Cyngor Ychwanegol**

Ers yr adroddiad diwethaf, mae hyder yn y ddarpariaeth wedi gwella oherwydd fe wnaed cynnydd yn y meysydd canlynol:

- Sgoriwyd tendrau ar gyfer trosi Epworth Lodge yn Ffordd Brighton, y Rhyl, i 8 uned o lety dros dro.
- Penodwyd penseiri i ddatblygu dyluniad ar gyfer disodli hen ganolfan tai gwarchod ym Maes Emlyn, y Rhyl.

- Roedd prynu tŷ pâr newydd drwy ymrwymiad tai fforddiadwy yn natblygiad Cysgod y Graig yn Nyserth wedi'i gwblhau.
- Derbyniwyd cynigion ar gyfer prynu hen dŷ cyngor a hen fflat y cyngor yn y Rhyl.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu datblygiad newydd yn cynnwys dwy uned fanwerthu ar y llawr gwaelod, a 4 fflat ar y lloriau uwch yn hen safle siop Next ar Stryd Fawr y Rhyl.

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Nifer y bobl oedd ar y Gofrestr Angen Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	5	13	Rhagorol
Y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd	14	13	Amherthnasol (cyfrif yn unig)
Nifer y cartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn Sir Ddinbych – <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	435	422	Rhagorol
Nifer yr eiddo gwag sy'n cael eu defnyddio eto (hen ddiffiniad) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	184	196	Rhagorol
Nifer y cartrefi sector preifat sydd wedi gwella o ran safon ac ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y Cyngor – <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	415	325	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	154	222	Rhagorol

<b>Llinyn Mesur</b>	<b>2020 - 2021</b>	<b>2021 - 2022</b>	<b>Statws</b>
Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (dyletswydd Adran 66) – <b>wedi'i feincnodi'n genedlaethol</b>	52	42	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran yr aelwydydd digartref y sicrhawyd cartrefi iddynt (dyletswydd Adran 73) – <b>wedi'i feincnodi'n genedlaethol</b>	31	22	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y Cartrefi Gofal Ychwanegol a gaiff eu cefnogi gan y cyngor	0	74	Amherthnasol (cyfrif yn unig)

### **Arolygon Budd-ddeiliaid 2018 i 2022**

<b>Llinyn Mesur</b>	<b>2018 - 2019</b>	<b>2021 - 2022</b>	<b>Statws</b>
Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardaloedd hwy – <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	42	30	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y canran o drigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fodlon â safon tai yn eu hardaloedd hwy – <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	52	40	Blaenoriaeth ar gyfer gwella



## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Chwarter 2 2022 - 2023	Statws
Nifer y bobl ar restr aros SARTH– <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	2,283	2,378	2,050	2,075	2,190	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer cronnus y bobl a gartrefwyd oddi ar gofrestr SARTH	153	209	261	61	122	Amherthnasol (cyfrif yn unig)

### Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu at Nodau Llesiant Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, cadernid amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynus**, a Chymru **sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** gyda **diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Gwobrau Tai Sir Ddinbych

Roedd [Gwobrau Tai Sir Ddinbych](#), a gynhaliwyd ym Mwyty 1891 yn y Rhyl, yn ddathliad o'r hyn y mae tenantiaid a chymunedau yn ei gyflawni, ynghyd â dangos prosiectau y maent yn rhan ohonynt ar draws y sir. Mae'r digwyddiad gwobrwyo yn gyfle i ddathlu

cyflawniadau a chyfranogiad tenantiaid am y gwaith y maent yn ei wneud yn eu cymunedau, i gefnogi prosiectau sy'n digwydd ar draws y sir.

Roedd y gwobrau eleni mewn **cydweithrediad** gyda Brenig Construction, contractwr arweiniol ar brosiect Llwyn Eirin yn Ninbych, y tai cyngor newydd cyntaf i gael eu dylunio a'u hadeiladu yn ardal Sir Ddinbych ers 30 mlynedd. Mae'r gwobrau'n gyfle i ddiolch i'n tenantiaid am eu **cyfranogiad** parhaus, a gobeithio y bydd yn gymorth i ddatblygu perthynas **hirdymor** gyda nhw. Mae'r dathliad yn rhoi cydnabyddiaeth a chefnogaeth i denantiaid a allai fod yn wynebu **anfantais economaidd gymdeithasol**, boed yn enwebedigion ar gyfer gwobrau neu'n elwa o waith da a phrosiectau.

## **Gwasanaeth Cefnogi Llety Dros Dro**

Mae'r Cyngor eisiau gwaredu ei ddibyniaeth ar lety argyfwng ar ffurf gwely a brechwast drwy weithredu cynnig ar gyfer [prosiect cefnogi llety argyfwng dros dro ar gyfer rhai sy'n ddigartref](#). Mae'r prosiect yn ceisio darparu cefnogaeth gynhwysfawr 24 awr, i bobl sy'n gadael llety argyfwng dros dro, a bydd yn cael ei ddarparu mewn **cydweithrediad** â sefydliad trydydd sector sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn gweithredu llety â chymorth 24 awr. Mae hyn yn **integreiddio** gyda chynllun Ailgartrefu Brys Llywodraeth Cymru a chydabod bod angen i Awdurdodau Lleol i weithio mewn partneriaeth gyda'r Trydydd Sector, gan y derbynir eu bod yn cael eu cymell gan werth ac amcanion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, yn hytrach na gwneud elw; ynghyd ag ymrwymo i ail-fuddsoddi'r arian sydd dros ben i wella eu hamcanion cymdeithasol ac er budd pobl leol a chymunedau.

Nod y prosiect yw darparu cefnogaeth gyfannol i ddinasyddion sy'n cael eu rhoi mewn llety argyfwng dros dro sy'n eiddo i'r awdurdod lleol, i leihau ac **atal** y risg o fod yn ddigartref eto, a gwella canlyniadau lles yn **hir dymor**. Elfen allweddol o'r prosiect yw **cyfranogiad** unigolion mewn rhaglen ymgysylltiol o weithgareddau ac ymyraethau ystyrlon. Bydd yr unigolion a fydd yn elwa o'r gwasanaeth cefnogaeth newydd yn rhai sydd yn wynebu **anfantais economaidd gymdeithasol**.

## **Fflatiau ar gyfer Rhent Cymdeithasol**

Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn cyflawni gwaith i drawsnewid hen swyddfa dreth y Rhyl, Llys Anwyl ar Stryd Churton, yn fflatiau hygyrch ar gyfer rhent cymdeithasol, gyda naill ai

un neu ddwy ystafell wely ar gyfer pobl hŷn. Mae'r gwaith bellach wedi dechrau ar yr adeilad, a fu'n wag am flynyddoedd cyn i'r cyngor ei brynu er mwyn gallu ei aildddefnyddio. Mae cyfres o welliannau effeithlonrwydd ynni yn cael eu gwneud i'r adeilad er budd y preswylwyr. Disgwylir i'r eiddo gael ei gwblhau yn 2023 a bydd yn cael ei osod gan Tai Sir Ddinbych.

Lle bo modd mae'r cyngor yn ceisio **cydweithio** a gweithio gyda chyflenwyr ac is-gontractwyr lleol lle bo modd. Hefyd, bydd digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' ar gyfer y busnesau sydd â diddordeb mewn **cyfranogi** yn y prosiect. Bydd sicrhau ein bod yn cadw at safonau tai ac ynni hefyd yn **atal** materion yn **hirdymor**, er budd lles y tenantiaid. Bydd y prosiect er budd y rhai dan**anfantais economaidd gymdeithasol**, ynghyd â chefnogi'r amodau byw ar gyfer y rhai gydag un neu fwy o nodweddion a ddiogelir, fel **oedran** ac **anabledd**.

## **Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Tai**

Yn y [cyfarfod ym mis Gorffennaf](#), derbyniodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau adroddiad Archwilio Mewnol dilynol ar y gwasanaeth aml-ddisgyblaeth ar gyfer digartrefedd. Roedd yr adroddiad yn rhoi cyfle i aelodau archwilio effeithiolrwydd yr ymagwedd gorfforaethol ar draws gwahanol wasanaethau wrth fynd i'r afael â digartrefedd fel blaenoriaeth ehangach y cyngor, ac nid fel blaenoriaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn unig. Nodwyd bod aelwydydd mewn llety brys dros dro yn aros yn hirach na chyn Covid-19, gan fod yna ddiffyg llety symud ymlaen parhaol addas iddynt symud. Yn ystod y 18 mis diwethaf mae'r cyngor wedi sicrhau tenantiaethau ar gyfer 99 aelwyd mewn tai cymdeithasol ar ôl atal y Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol, ble mae dros 50% wedi dod o bortffolio Tai Cymunedol Sir Ddinbych.

Mae'r Tîm Aml Ddisgyblaeth (MDT) o fewn Atal Digartrefedd wedi'i weithredu'n llawn yn awr. Mae'r cynnydd a wnaed a'r ymdrechion parhaus i weithredu arferion newydd wedi'u cydnabod o fewn yr adroddiad archwilio dilynol. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu fframwaith monitro cadarn ar gyfer ansawdd a pherfformiad, ond mae hyn wedi'i ohirio ychydig wrth i ni aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae pob dinesydd sy'n derbyn darpariaeth digartrefedd statudol yn derbyn sgwrs 'Beth sy'n bwysig' yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae'r aelod mwyaf priodol o'r MDT yn cael eu dyrannu i'r unigolyn neu'r aelwyd. Bydd cefnogaeth barhaus yn parhau i fynd i'r

afael ag unrhyw anghenion a nodwyd ar ôl sicrhau tenantiaeth barhaol i leihau'r risg o ddigartrefedd cylchol.

Mae'r tîm aml-ddisgyblaeth a'r ymagwedd gorfforaethol ar draws y gwasanaethau wedi'i weithredu gyda'r nod o ddarparu buddion **hirdymor**, atal digartrefedd, ac **integreiddio** a **gweithio ar y cyd** ar draws y cyngor a gyda'n partneriaid. Bydd y rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn elwa o'r gwaith.

## **Gwaith Gwella Ynni**

Mae paratoadau yn mynd rhagddynt i gyflawni gwelliannau ynni wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru i weddill eiddo Tai Sir Ddinbych ar Rhydwen Drive, y Rhyl. Daw'r cam yn dilyn cytundeb y Cabinet i ddyfarnu'r contract i'r cyflenwr sydd yn cyflawni cam un y gwaith ar hyn o bryd. Bydd cam dau yn gweld y 40 o dai sy'n weddill, yn derbyn gwaith gwelliannau ynni o ddiwedd Medi ymlaen. Bydd y gwaith yn cynnwys gosod paneli solar a fydd yn cynhyrchu trydan ac yn ei storio mewn batris cysylltiedig er mwyn galluogi defnydd ynni yn ystod y nosweithiau. Bydd inswleiddio waliau allanol yn cael ei osod er mwyn helpu i leihau drafft a'r ynni sydd ei angen i gynhesu bob cartref, yn arbennig yn ystod y gaeaf.

Bydd y prosiect **cydweithredol**, yn **integreiddio** gydag uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer cartrefi cynnes, yn darparu buddion **hirdymor** ar gyfer Lles ein tenantiaid, ynghyd â'u **hatal** rhag wynebu anawsterau ariannol o ganlyniad i gostau tanwydd cynyddol. Bydd yn cefnogi'r rhai dan **anfantais economaidd gymdeithasol**, ac wrth ei ddarparu byddwn bob amser yn ceisio gweithio gyda a **chynnwys** ein tenantiaid.

## **Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da**

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

### **Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur**

Mae cysylltiad band eang cyflym iawn yn Sir Ddinbych yn awr yn 94.2%; cynnydd bach iawn o 0.09% ers ein hadroddiad diwethaf. Roedd gan 3.6% o eiddo fand eang o 10mbps neu is. Mae hyn yn ostyngiad o 0.25% ers diwedd Mehefin. Mae cysylltiad band eang cyflym iawn Sir Ddinbych yn parhau i fod yn wael iawn o'i gymharu â gweddill y DU.

Gwnaed 50% o drafodion cyhoeddus ar y we rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022, o'i gymharu â chyfanswm nifer y trafodion a wnaed gan ddefnyddio pob sianel fynediad. Mae hyn yr un fath â ffigur mis Ebrill i fis Mehefin.

Yn anffodus, oherwydd materion capasiti nid yw'n bosibl darparu data yn yr adroddiad hwn ar gyfer canran y ffyrdd a phalmentydd oedd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y targed. Mae'r Gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r mater, a byddwn yn ceisio cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein hadroddiad nesaf.

### **Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect**

#### **Briff Prosiect: Teithio i'r Gwaith, Addysg a Gwasanaethau**

Bydd drafft y Cynllun Teithio Cynaliadwy, sy'n cynnwys Teithio Llesol, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 22 Tachwedd, 2022. Bydd swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau ymgysylltiad cyhoeddus am y Cynllun.

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - <b>wedi'i feincnodi'n genedlaethol</b>	3.5	2.6	Rhagorol
Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - <b>wedi'i feincnodi'n genedlaethol</b>	5	3.8	Rhagorol
Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - <b>wedi'i feincnodi'n genedlaethol</b>	7.6	7.5	Rhagorol
Canran yr oedolion (16 neu'n hŷn) sydd wedi defnyddio'r rhyngwrwyd yn y tri mis diwethaf (Conwy a Sir Ddinbych) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	89.8	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y ganran o signal symudol 4G ar ffordd (holl weithredwyr) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	49.8	50.63	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 i 2019

Llinyn Mesur	2014	2019	Statws
Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).	14	14	Amherthnasol (cyfrif yn unig)

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Chwarter 2 2022 - 2023	Statws
Canran o ardaloedd all dderbyn Cysylltiad Cyflym lawn yn Sir Ddinbych (>30 Mbps) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	92.75	93.37	93.92	94.11	94.2	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran o eiddo gyda Band Eang o 10 Mbps neu lai - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	4.33	4.18	3.95	3.85	3.6	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y trafodion a wneir ar y we, o'i gymharu â nifer llawn y trafodion a wneir gan ddefnyddio pob sianel fynediad - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	48	51	53	50	50	Derbyniol
Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel	64	51	43	Aros am ddata	Aros am ddata	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

<b>Llinyn Mesur</b>	<b>Chwart er 2 2021 - 2022</b>	<b>Chwart er 3 2021 - 2022</b>	<b>Chwart er 4 2021 - 2022</b>	<b>Chwart er 1 2022 - 2023</b>	<b>Chwart er 2 2022 - 2023</b>	<b>Statws</b>
o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>						

## **Llesiant a Chydraddoldeb**

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, cadernid amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## **Datgarboneiddio Cynnal a Chadw Priffyrdd**

Yn ogystal â'n rhaglen arferol i gynnal a chadw priffyrdd, cafwyd cynllun ailwynebu carbon net arloesol, Parc y Dre, Rhuthun, yn ystod y cyfnod. Hon oedd y ffordd gyntaf yng Nghymru i gael ei hailwynebu gan ddefnyddio deunydd ailwynebu arloesol, yn lleihau lefelau carbon cyffredinol yn sylweddol o gymharu â'r triniaethau traddodiadol, gan ei ddarparu a'i osod yn erbyn gan yr unig contractwr gosod carbon niwtral achrededig yn y DU, Miles Macadam. Dewiswyd Parc y Dre ar gyfer y broses oherwydd bod y gerbyddffordd bresennol wedi'i gwneud o goncrid, sy'n ei wneud yn safle addas.

Cynnal a chadw priffyrdd yw un o'r gweithgareddau sy'n defnyddio'r mwyaf o garbon yn y cyngor. Mae'r Cynllun yn rhan o ymdrechion y cyngor i fod yn Gyngor Di-Garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030. Gan weithio **ar y cyd** â'n cymunedau a'r contractwyr,



mae'r gwaith hyn yn ceisio cynnal cyflwr da cyffredinol ein ffyrdd yn **hirdymor** ac **atal** digwyddiadau neu anafiadau, tra'n lleihau ein hól troed carbon. Hysbysir ein rhaglen wella drwy **gyfranogiad** aelodau lleol ac adborth preswylwyr.

## **Lleihau Ynni Goleuadau Stryd**

Ym mis Awst cwblhawyd y prosiect i leihau allbwn carbon ein goleuadau stryd yn y sir drwy drawsnewid yr holl oleuadau stryd i LED sy'n defnyddio llai o drydan. Ar y cyfan, mae'r cyngor yn cynnal cyfanswm o 11,690 o oleuadau stryd ac ar ôl rhaglenni treialu bach cychwynnol, penderfynwyd newid gweddill yr unedau am oleuadau LED ynni isel yn rhan o brosiect dros 7 mlynedd er mwyn gwneud arbedion mewn carbon a chostau trydan. Mae ein tîm goleuadau stryd mewnol wedi cyflawni'r prosiect cyfan, o'r cam caffael a dylunio i'r cam gosod. Mae'r cyfarpar sydd wedi'i osod yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a'r offer mwyaf effeithlon o ran ynni, sy'n cynnwys gostwng goleuadau'n rhannol yn y nos ac allbwn lwmen cyson.

Mae'r prosiect wedi lleihau allbwn carbon o oleuadau stryd dros y cyfnod o saith mlynedd yn sylweddol, o 1,800 tonnall yn flynyddol yn 2015/16 i ddim ond 400 tonnall yn 2021/22. Mae hyn yn ddatrysiad **hirdymor** sy'n helpu i **atal** mwy o niwed a difrod i'n hamgylchedd.

## **Gwella Cludiant Gwledig**

Yn ystod y cyfnod, mae'r cyngor wedi cydweithio â Phartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych i ail-lansio cynllun ceir cymunedol gwledig y sir. Nod y cynllun ceir cymunedol yw cynorthwyo trigolion cefn gwlad i gael mynediad at gyfleusterau lleol fel siopau, ymweld â ffrindiau a theulu, mynd i apwyntiadau meddyg neu ddeintydd, ac ymgymryd â busnes personol. Trwy'r bartneriaeth hon bydd Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych yn cymryd y cyfrifoldeb o weithredu'r cynllun, gyda chynlluniau trawiadol mewn lle i ymestyn y gwasanaeth er mwyn cyrraedd cymaint ag sy'n bosibl o ardaloedd gwledig de Sir Ddinbych.

Unwaith eto, gan weithio **ar y cyd** ac **integreiddio** gydag uchelgais cymunedau a phartneriaid, rydym yn datblygu'r cynllun ceir cymunedol i **gynnwys** preswylwyr mewn datrysiadau cludiant arloesol, gwella mynediad ar gyfer pobl i **atal** arwahanrwydd, helpu'r rhai gydag un neu fwy o nodweddion a ddiogelir, fel **Oedran** ac **Anabledd**, neu sy'n profi **anfantais economaidd gymdeithasol**.

## Datgarboneiddio Teithio

Gosodwyd canolbwynt gwefru ceir trydan newydd ym mis Awst ym Maes Parcio Gorllewin Stryd Cinmel yn y Rhyl, y mwyaf o'i fath yng Nghymru. Bydd y maes gwefru, y maes mwyaf ond un ar hyn o bryd yn y DU, yn gallu gwefru 36 o gerbydau ar yr un pryd. Mae cyflwyno'r canolbwynt, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dod yn dilyn gosod pwyntiau gwefru ym maes parcio Kings Avenue ym Mhrestatyn. Lleolir y canolbwynt ym mhen gorllewinol y maes parcio, a bydd yn cynnwys cymysgedd o fannau gwefru 7kwh 'cyflym' ar gyfer defnyddwyr lleol sydd heb le i barcio oddi ar y stryd, a mannau gwefru 50kw 'chwim' ar gyfer gwefru'n gyflym. Bydd hefyd yn cynorthwyo gyrwyr tacsis lleol i ddefnyddio cerbydau trydan drwy leihau aflonyddwch yn ystod oriau gwaith. Bydd yr holl wefrwyr yn agored i'r cyhoedd, a bydd tri o'r gofodau a'r unedau gwefru yn cael eu dyrannu'n benodol ar gyfer defnyddwyr sy'n anabl. Disgwylir i'r gwaith ar y safle gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref gyda'r parc gwefru yn mynd yn fyw tuag at ddiwedd mis Tachwedd.

Mae tacsî gwyrdd newydd wedi'i ychwanegu at y cynllun tacsî yn Sir Ddinbych. Gall y Kia deithio hyd at 328 milltir ar ôl gwefru unwaith ac mae wedi'i ddylunio fel y gall gyrwyr tacsî weithio'n hyderus am sifft gyfan, gan gynnwys teithiau i'r maes awyr, heb fod angen gwefru.

Mae'r enghreifftiau hyn o deithio heb allyriadau a theithio sy'n ymateb i alw yn ceisio **integreiddio** amcanion ar lefel genedlaethol a lleol, **cydweithio** gyda phartneriaid, a **chynnwys** defnyddwyr mewn datrysiadau **hirdymor** sy'n **atal** niwed a difrod pellach i'r amgylchedd. Yn achos y canolbwynt gwefru, bydd y cynllun er budd pobl gyda'r nodwedd a ddiogelir, **anabledd**.

## Cefnogi busnesau

Ym mis Gorffennaf, gosododd y cyngor rwystrau dros dro ar ochr promenâd parth cerddwyr Stryd Fawr y Rhyl. Mae'r rhwystrau ar gau rhwng 10am a 5pm bob dydd er mwyn atal gyrwyr rhag gyrru a pharcio yn y parth i gerddwyr. Daeth hyn i rym ar ôl i'r cyngor dderbyn sawl cwyn gan y gymuned leol a pherchnogion busnes bod rhai gyrwyr yn mynnu gyrru ar hyd y parth i gerddwyr, gan achosi problemau diogelwch. Roedd hyn er gwaethaf camau gorfodi ychwanegol gan y swyddogion gorfodi; gyda dros 400 o rybuddion talu cosb wedi'u cyflwyno yn y lleoliad dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Caniateir

i gerbydau yrru yn y parth o 5pm tan 10am y diwrnod canlynol. Darperir rhif cyswllt brys os bydd angen mynediad mewn argyfwng rhwng 10am a 5pm. Mae gofodau llwytho wedi'u creu ar Rodfa'r Gorllewin a'r Dwyrain ger pen y Stryd Fawr, ynghyd ag ugain o ofodau parcio lle gellir parcio am awr am ddim yn y Maes Parcio Canolog, gan ddarparu lleoedd cyfagos amgen i'w defnyddio os bydd angen.

Mae hyn yn dangos ein bod yn gwrando ar ein cymunedau ac yn eu **cynnwys** yn ein datrysiadau. Mae'r dewis o rwystr dros dro yn golygu bod mesur byrdymor ar gael tra bo'r cyngor yn canfod datrysiad rhwystr parhaol yn **hir dymor**. Mae'r gofodau parcio am ddim a gofodau llwytho ychwanegol hefyd er budd nodweddion a ddiogelir o ran **Oedran ac Anabledd**, ynghyd â'r rhai sy'n wynebu **anfantais economaidd gymdeithasol**.

## **Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Rhagorol

### **Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur**

Bu gostyngiad o 34.3% yn nifer dioddefwyr eildro troseddau domestig yn Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf, Awst a Medi 2022 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Gostyngodd y niferoedd o 405 i 266. Ar y cyfan, mae Gogledd Cymru wedi gweld gostyngiad o 7.5% mewn trais domestig gyda dioddefwyr eildro ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi. Mae nifer y rhai sy'n aildroseddu gyda thrais domestig hefyd wedi gostwng yn Sir Ddinbych o 33 y llynedd i 28 y flwyddyn hon, gostyngiad o 15.2%. Mae hyn yn debyg i'r darlun cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru sydd â gostyngiad o 8.1% ar gyfer yr un cyfnod.

Ar wefan cenedlaethol Dewis Cymru mae nifer yr adnoddau ar gyfer Sir Ddinbych wedi cynyddu o 533 i 556 yn y cyfnod diwethaf. Mae 10,959 o adnoddau ar gyfer Cymru ar Dewis Cymru ar hyn o bryd, a 2,535 ar gyfer Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd 100 o asesiadau gofalwyr rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, gan ddod â chyfanswm y flwyddyn ariannol i 197 (cronnus ers mis Ebrill). Mae'r ffigwr, fodd bynnag, yn ostyngiad o 11% ar gyfer yr un cyfnod y llynedd (221).

Mae'r data ar gyfer y cyfnod cyfartalog mae oedolion (65 oed a throsodd) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl wedi gostwng o 1,059 (mis Ebrill i fis Mehefin) i 1,043 diwrnod ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf i fis Medi. Y ffigwr ar gyfer yr un cyfnod y llynedd oedd 1050 diwrnod.

### **Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect**

#### **Yn profi rhwystrau: Cynnwys pobl wrth lunio a gwella gwasanaethau**

Cadarnhawyd ymchwil tair blynedd gan ONEDAY i'w lansio yn ystod mis Gorffennaf i fis Medi. Nid yw'r gwaith gyda'r Gwasanaethau Democrataidd i ddatblygu Strategaeth

Gyfranogi i fodloni'r Ddeddf wedi'i gyflawni, ond, mae gweithgor wedi'i sefydlu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn i arweinwyr ymgysylltu y cyngor rannu eu profiadau a'u harferion gorau. Mae'n debyg y bydd hyn yn ffrwd waith ar wahân yn awr.

Mae gwaith wedi'i gyflawni i sicrhau rhywbeth yn lle Porth Sgwrs y Sir (sydd wedi'i ariannu gan y prosiect hwn hyd at ddiwedd Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022). Yn dibynnu ar gyhoeddiad y Polisi Ymgysylltu a chytuno ar ddisodli'r Porth, y cynllun yw y bydd y prosiect ar Verto'n cael ei gau erbyn Hydref 2022.

### **Ar y trywydd iawn: Datblygu Cymunedol Ledled y Sir**

Mae'r Tîm Datblygu Cymunedol wedi parhau i oruchwylio a monitro darpariaeth 14 o brosiectau Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU yn Sir Ddinbych a byddant yn cael eu cwblhau erbyn diwedd Rhagfyr. Bydd monitro canol blwyddyn yn cael ei gwblhau yn ystod mis Hydref a'i adrodd i Lywodraeth y DU. Mae'r tîm wedi cydweithio gydag adolygiad sicrwydd ar gyfer gweinyddu UKCRF, sydd wedi derbyn adborth cadarnhaol. Mae gwaith wedi'i gyflawni i gasglu cyllid sydd ar gael a pharatoi negeseuon cyfathrebu yn barod ar gyfer rownd 2022 i 2023 o gronfa grant Symiau Gohiriedig Gofod Agored. Bydd y gronfa'n agored i dderbyn ceisiadau rhwng wythnos gyntaf Tachwedd a diwedd Ionawr; bydd ychydig dros £100,000 ar gael i gymunedau ar draws y sir ac ar gyfer adrannau mewnol i wella ardaloedd hamdden gofod agored a lleoedd chwarae. Yn ogystal â chefnogi'r swyddogaethau gweinyddu grantiau a nodwyd uchod, mae'r tîm wedi cynnig arweiniad i 20 o brosiectau cymunedol newydd neu ymholiadau a darparu cefnogaeth barhaus i 35 o brosiectau.

Mae'r Swyddog Digidol yn parhau i gefnogi amryw o gymunedau i archwilio gwella cysylltedd band eang. Mae'r gwaith yn fwy a mwy cymhleth i'w lywio oherwydd addasiadau i'r cyllid sydd ar gael i gefnogi gwelliannau, a bod Openreach wedi peidio â derbyn ceisiadau Partneriaeth Cymuned Ffibr newydd ar hyn o bryd. Mae'r Swyddog Digidol yn casglu adroddiadau ar gyfer pob ardal Cyngor Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych, gan osod tirlun, cyfleoedd a heriau cysylltedd lleol. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynlluniau gwella cysylltedd lleol dros y misoedd nesaf.

## **Ar y trywydd iawn: Technoleg Gynorthwyol**

Mae Coleg Llandrillo wedi derbyn robot ac mae'r adran gyfrifiadureg yn gweithio gyda'r adran gofal cymdeithasol i ystyried cymwysiadau gofal cymdeithasol. Mae myfyrwyr yn gweithio ar y robot i raglennu swyddogaethau newydd. Mae systemau Teleofal Byw ac ategolion wedi'u gosod yn adran gofal cymdeithasol Coleg Llandrillo. Bydd y Swyddog Technoleg Gynorthwyol yn darparu hyfforddiant i diwtoriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## **Ar y trywydd iawn: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Digidol**

Mae'r cyngor wedi derbyn gwobr genedlaethol am fod yn ddigidol gynhwysol diolch i amrywiaeth o waith. Mae'r grŵp, sy'n cael ei gadeirio gan Gymunedau Digidol Cymru, yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i edrych ar ddatrysiadau digidol, ac mae beic hel atgofion arall ar gael yn awr. Siaradodd cynrychiolydd Cymunedau Digidol Cymru mewn digwyddiad gyda Chomisynydd Pobl Hŷn Cymru yn ddiweddar, gan ystyried ffyrdd y gallwn helpu i atal pobl hŷn rhag cael eu heithrio'n ddigidol. Mae trafodaethau pellach gyda'r Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig i benderfynu a ellir dangos neu dreialu eitemau poblogaidd o offer mewn Pwyntiau Siarad. Gwrthodwyd cais i'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol am gydlynnydd offer digidol fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Dementia gan y teimlwyd na fyddai'n gyfle Cymru gyfan (rhy leol).

Mae offer digidol ar gael i'w ddarparu i fynd i'r afael ag arwahanrwydd digidol ac mae wedi bod yn hynod boblogaidd. Gall mynediad at y rhyngrwyd beri problem ar draws y sir. Mae cyfarfodydd yn parhau gyda'r Tîm Asesu Ariannol a'r Tîm Gwe i symud ymlaen â rhoi'r ffurflenni asesu ar-lein. Mae ffurflenni drafft yn cael eu treialu gan y timau. Y tudalennau gwe eraill y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol sy'n cael eu diweddarau yw cymorth ar gyfer cyllidebau a thaliadau uniongyrchol, a newidiadau hinsawdd ac ecolegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

Data 2018 i 2022

Llinyn Mesur	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Canran y bobl sy'n dweud eu bod wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan oedd arnynt ei angen - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	88	Dim data Dim arolwg	Derbyniol
Canran y gofawyr sy'n dweud eu bod yn cael cefnogaeth i barhau i ddal ati i ofalu - <b>wedi ei feincnodi'n lleol</b>	55	Dim data Dim arolwg	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a chymorth - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	84	Dim data Dim arolwg	Derbyniol
Canran y bobl sy'n cytuno "mae fy ardal leol yn le ble bydd pobl yn tynnu at ei gilydd er mwyn gwella'r ardal leol" - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	59	63	Da
Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	27	20	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

## Ffigyrau Prosiect Adsefydlu yn y DU ar gyfer Sir Ddinbych 2020 i 2022

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Nifer y teuluoedd sydd wedi cael eu hadsefydlu o fewn Sir Ddinbych dan Brosiect Adsefydlu'r DU - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	5	6	Amherthnasol

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Chwarter 2 2022 - 2023	Statws
Nifer cronrus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sydd wedi dioddef camdrin domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad oeddynt yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi'i fesur yn y flwyddyn hyd yma)	405	509	678	126	266	Amherthnasol (cyfrif yn unig)
Nifer cronrus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro (3 neu fwy	33	60	83	11	28	Amherthnasol (cyfrif yn unig)



<b>Llinyn Mesur</b>	<b>Chwarte r 2 2021 - 2022</b>	<b>Chwarte r 3 2021 - 2022</b>	<b>Chwarte r 4 2021 - 2022</b>	<b>Chwarte r 1 2022 - 2023</b>	<b>Chwarte r 2 2022 - 2023</b>	<b>Statws</b>
mewn 12 mis)						
Nifer yr adnoddau sy'n fyw ar wefan Dewis Cymru - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	620	532	533	552	556	Da
Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn	221	302	390	97	197	Amherthnaso l (cyfrif yn unig)
Yr amser ar gyfartaledd y mae oedolion (65 mlwydd neu hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl	1,050	1,044	1,028	1,059	1,043	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

<b>Llinyn Mesur</b>	<b>Chwarte r 2 2021 - 2022</b>	<b>Chwarte r 3 2021 - 2022</b>	<b>Chwarte r 4 2021 - 2022</b>	<b>Chwarte r 1 2022 - 2023</b>	<b>Chwarte r 2 2022 - 2023</b>	<b>Statws</b>
(mewn diwrnodau) - <b>wedi'i feincnodi'n genedlaethol</b>						

## **Llesiant a Chydraddoldeb**

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n ategu at Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng **ngghyswllt ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## **Rhybudd am Wres Llethol**

Ym mis Gorffennaf, bu i arbenigwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru rybuddio pobl i gymryd gofal ychwanegol yn y gwres llethol a ragwelwyd, neges y bu i'r cyngor ei hyrwyddo gyda'r preswylwyr. Roedd disgwyl i'r tymheredd gyrraedd y tridegau mewn rhai rhannau o Gymru yn ystod pythefnos cyntaf y mis. Cawsom gyngor bod tywydd poeth sy'n para sawl diwrnod, neu fwy, yn gallu achosi dadhydradiad, gorgynhesu, blinder gwres a thrawiad gwres. Mae'n bwysig iawn edrych ar ôl plant, yr henoed a'r rhai gyda chyflyrau iechyd presennol. Anogwyd y preswylwyr i gadw golwg yn rheolaidd ar eu perthnasau, cyfeillion, teulu a chymdogion, ac i wneud newidiadau i'w harferion dyddiol i ymdopi â'r gwres llethol. Roedd hyn yn cynnwys osgoi gweithgarwch caled yng nghanol y dydd pan oedd yr haul ar ei boethaf, yfed digon o ddŵr a gwisgo het, eli haul a dillad llac a golau, gyda llewys hir os oedd modd. Roedd cyngor yn cynnwys cadw ystafelloedd yn oerach drwy gau bleinds a llenni a chau ffenestri.

Bydd annog bod yn wylriadwrus a pharatoi o dan yr amgylchiadau hyn wedi bod er budd nodweddion a ddiogelir **Oedran** ac **Anabledd**. Mae'n enghraifft dda o **gydweithio** sy'n ceisio **cynnwys** pobl a allai fod yn ddiamddiffyn, ynghyd â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae hyn yn integreiddio ein dyhead cyffredin i gadw pawb yn ddiogel, gyda'r wybodaeth briodol ac **atal** unrhyw niwed.

## **Gwobr am Fenter Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Mae materion ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u hadrodd yng Ngherddi Botaneg y Rhyl, gan gynnwys ymddygiad bygythiol a fandaliaeth, a oedd yn cynnwys difrod i'r lawnt fowlio. Bu Tîm Gwasanaethau Stryd y cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyfeillion y Gerddi Botaneg a'r heddlu, ynghyd â chynghorwyr lleol, ysgolion, Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ac ASau Lleol Senedd Cymru a'r DU i fynd i'r afael â materion a oedd yn achosi pryder yn lleol. Cyflwynwyd cyfres o fesurau ar ôl trafod gyda sefydliadau partner, gan gynnwys gwella ac ychwanegu at y ddarpariaeth TCC, cau giatau yn y nos, gosod ffens o amgylch y lawnt fowlio, gwella patrôl yr heddlu'n lleol, a gwella goleuadau yn rhannau o'r parc. Cyrhaeddodd y prosiect restr fer gwobrau POP (Plismona Datrys Problemau) Heddlu Gogledd Cymru a chyrraedd y rownd derfynol lle cafwyd yr ail wobwr.

Trwy **gynnwys** y gymuned a gweithio **ar y cyd**, mae ein partneriaid wedi dod at ei gilydd i **integreiddio** ein dyhead cyffredin i gadw pawb yn ddiogel ac **atal** unrhyw niwed.

## **Catalyddion Cymunedol**

Mae Catalyddion Cymunedol yn cynnig cyngor proffesiynol am ddim i helpu pobl i weithio iddyn nhw eu hunain a darparu gofal a chefnogaeth ar draws y sir. Diolch i'r fenter hon mae 16 meicro ddarparwr yn gweithio i'w hunain yn Sir Ddinbych yn awr, ac mae'r cynllun yn awr yn cynnig cefnogaeth ar gyfer darpar entrepreneuriaid i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc. Mae dros 70 o bobl yn y sir eisoes wedi elwa drwy Gatalyddion Cymunedol i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn eu cartrefi eu hunain, boed yn gymorth yn y tŷ, cwmnïaeth, helpu rhywun i fynd allan, neu ddarparu gofal personol. Gyda 25 meicro-ddarparwr arall yn dod drwy'r rhaglen, bydd mwy o bobl yn Sir Ddinbych yn y dyfodol yn gallu defnyddio'r gwasanaethau yma i'w helpu i fod yn fwy cyfforddus ac yn fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain.

Drwy **integreiddio** a **chydweithio**, bydd y fenter hon yn sicrhau buddion i'r rheiny â'r nodweddion a ddiogelir, **Oedran** ac Anabledd. Mae'n annog **cyfranogiad** a gobeithir y bydd yn helpu i ddatblygu ein cynnig gofal yn y sir, **atal** niwed, a bodloni anghenion unigol yn yr **hirdymor**.

## Taliadau Tanwydd y Gaeaf

Mae'r cyngor yn gweinyddu cynllun taliadau tanwydd y gaeaf ar ran Llywodraeth Cymru i gynorthwyo aelwydydd yn ariannol gyda'u costau ynni cynyddol. Mae £90 miliwn wedi'i ddarparu i gefnogi aelwydydd ledled Cymru, ac mae cymhwysedd ar gyfer y cynllun wedi'i ymestyn er mwyn galluogi mwy o aelwydydd i gymhwyso ar gyfer y taliadau £200. Gweler [ein gwefan](#) i weld y budd-daliadau sy'n golygu bod pobl yn gymwys ar gyfer Cynllun Tanwydd y Gaeaf, ynghyd â'r mathau eraill o gefnogaeth sydd ar gael yn sgil costau byw cynyddol. Mae'r cynllun hwn yn ychwanegol at gynllun talebau tanwydd Llywodraeth Cymru, y taliad Costau Byw o £150 a'r taliad i ofalwyr di-dâl. Mae'r cynllun ar agor i ymgeiswyr ers 26 Medi 2022, a disgwylir i'r taliadau gael eu gwneud ym mis Hydref 2022.

Gan **integreiddio** ein huchelgais cyffredin i **atal** caledi, yn y tymor byr o leiaf, bydd y fenter **gydweithredol** hon rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**. Oherwydd natur cymhwyso ar gyfer y cyllid, dylai gefnogi pobl gyda nodweddion a ddiogelir, fel **Oedran** ac **Anabledd**, ac aelodau mwy diamddiffyn ein cymunedau.

## Cymorth Costau Byw

Mae'r cyngor yn mynd trwy geisiadau'r Gronfa Costau Byw yn ôl Disgresiwn a'r prif gynllun Costau Byw ar ran Llywodraeth Cymru. Ym mis Medi, nodwyd bod 4312 o daliadau wedi'u gwneud neu £495,195 wedi'i roi drwy'r Gronfa Costau Byw yn ôl Disgresiwn i drigolion cymwys Band E sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol. Ar gyfer y prif gynllun Costau Byw, mae cyfanswm o 27,014 o daliadau gwerth £150 wedi'u gwneud i drigolion cymwys, cyfanswm o £4,052,100. Daeth y cynllun i ben ar 30 Medi. Mae rhagor o fanylion am y ddau gynllun ar gael ar [ein gwefan](#).

Bu'r Tîm Gwydnwch Cymunedol hefyd yn rhannu gwybodaeth a chyngor gyda phreswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw presennol drwy gyfres o 20 sioe deithiol

dros yr haf ar draws y sir. Roedd y sioeau teithiol yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau, gan gynnwys Dŵr Cymru, Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, Stop Loan Sharks Wales, Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych, Undeb Credyd Cambria, NEST, Cymru Gynnes a Groundwork Gogledd Cymru.

Mae'r mentrau **ar y cyd** yn cyflwyno buddion uniongyrchol i'r rhai sy'n byw o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae ein sioeau teithiol yn annog **cyfranogiad** a gobeithio y bydd yn cyflwyno syniadau newydd i **atal** niwed a diwallu anghenion ansylweddedig yn **hir dymor**. Bydd hyn yn **integreiddio** ein huchelgais cyffredin gyda'n partneriaid i **atal** caledi yn y tymor byr o leiaf, ond hefyd gyda golwg ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio'n **hirdymor**.

### **Sir Ddinbych sy'n Gyfeillgar i Oed**

Roedd preswylwyr a chymunedau ledled Sir Ddinbych yn cael eu hannog i fod yn greadigol ym mis Medi, wrth rannu eu barn ar beth allai wneud y sir yn fwy cyfeillgar i oed. Roedd syniadau a chyfraniadau yn cael eu harddangos, yn amodol ar ganiatâd, i gyd-daro gydag ymweliad gan Helena Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru pan ddaeth i ymweld â'r sir i nodi Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn (1 Hydref) ar 5 Hydref yng Nghlwb Rygbi Rhuthun. Roedd hwn yn gyfarfod arbennig ar gyfer Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych a Grŵp Cyngor sy'n Deall Dementia, sydd wedi uno'n ddiweddar i gynnig cefnogaeth ar gyfer gwaith pontio'r cenedlaethau yn y Sir. Croesawyd syniadau ar amryw o bynciau gan gynnwys cludiant, tai, manau tu allan, cyfranogiad cymdeithasol, parch a chynhwysiant cymdeithasol, cyfranogiad dinesig a chyflogaeth; cyfathrebu a gwybodaeth a chefnogaeth gymunedol a gwasanaethau iechyd. Bydd y grwpiau cyfunol yn symud ymlaen gyda'i gilydd, ynghyd â phartneriaid Conwy ac Age Connects, i weithio tuag at Gymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed yng Nghymru. Bydd mwy o wybodaeth am hyn yn ein diweddariad chwarterol nesaf.

Mae'r fenter er budd penodol nodweddiol a ddiogelir **Oedran ac Anabledd**. Mae'n enghraifft ragorol o **gydweithio** ac **integreiddio** sy'n ceisio trochi a **chynnwys** pobl hŷn, gan eu cadw'n brysur a chymryd diddordeb mewn gweithgarwch cymunedol. Bydd hyn yn cyfrannu at leihau arwahanrwydd ac unigrwydd, ac yn darparu cefnogaeth ar sail **hirdymor** i **atal** niwed.

# Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i diogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da

Prosiectau: Rhagorol

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae'r data diweddaraf am gyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn Sir Ddinbych wedi gweld cynnydd sylweddol ond a oedd i'w ddisgwyl o £213m yn 2020 i £432m yn 2021. Er bod hyn yn is na'r ffigyrau cyn y pandemig (£552m yn 2019), mae'r cynnydd yn galonogol ac yn nodi gwydnwch y sector twristiaeth a'i arwyddocâd economaidd parhaus yn y sir. Bydd y cyngor yn parhau i gefnogi'r economi twristiaeth yn Sir Ddinbych ac ym mis Hydref, mae Busnesau wedi'u gwahodd i Fforwm Twristiaeth am ddim, sy'n cynnwys nifer o siaradwyr gwadd ysbrydoledig. Mae'r Fforwm yn gyfle gwych i gynrychiolwyr glywed am y datblygiadau diweddaraf ym myd twristiaeth a chyfarfod busnesau o'r un feddylfryd tebyg a rhannu profiadau.

Roedd y cyngor wedi ailddatblygu ei Gynllun Gweithredu Strategaeth Twristiaeth i gynnwys Rheoli Cyrchfan. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gydlynu gweithgarwch yn well yn y sir a sicrhau profiad cadarnhaol i ymwelwyr, preswylwyr a busnesau. Cyn y cyfnod prysur eleni rydym wedi gwneud paratodau i reoli'r cynnydd a ddisgwylir mewn ymwelwyr, a oedd yn cynnwys darparu gofodau parcio ychwanegol ym Moel Famau a Rhaeadr y Bedol, a chyflwyno rhagor o geidwaid cefn gwlad yn y cyrchfannau, gan gynnwys parciau gwledig Loggerheads a Moel Famau a Rhaeadr y Bedol. Rhoddwyd rhagor o ddarpariaeth glanhau strydoedd ar waith i ganolbwyntio ar ardaloedd prysur mewn trefi a pharciau, gyda biniau'n cael eu gwagio'n amlach mewn mannau poblogaidd. Ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn hanes, darparwyd canllawiau sain newydd yn Nantclwyd y Dref; ac ar gyfer y rhai oedd yn dymuno ymweld â Llangollen, roedd prosiect Llangollen 2020 a gwblhawyd yn ddiweddar yn darparu mwy o ofod, gwell cyfleusterau croesi i gerddwyr, a gwell profiad ar gyfer cerddwyr wrth fynd i weld atyniadau'r dref. Roedd Tŷ a Gerddi Plas Newydd yn Llangollen yn agored i'r cyhoedd eto gydag arddangosfeydd newydd yn adrodd hanes hudolus Merched Llangollen. Roedd cyfleoedd gwych i deithio'n ddoeth ar draws y sir gyda'n rhwydwaith cludiant, gan arbed costau a

chefnogi'r amgylchedd lleol, er enghraifft, ar fws Tirlun Darluniadwy Dyffryn Dyfrdwy. Atgoffwyd yr ymwelwyr, fodd bynnag, nad yw Covid-19 wedi diflannu ac i ymddwyn yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn barchus pan fo'r angen. Mae gwybodaeth am ddarganfod Sir Ddinbych ar gael yn [ein Canolfannau Croeso](#).

## **Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect**

### **Yn profi rhwystrau: Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol**

Mae'r hyder yn ei gyflawniad yn parhau i gael ei nodi fel yn profi rhwystrau ar hyn o bryd. Mae cyflawniad llwyddiannus y prosiectau yn ymddangos yn debygol, ond mae materion sylweddol eisoes yn bodoli sydd angen sylw craff gan reolwyr. Ymddengys y gellir datrys y rhain ar hyn o bryd, ac os cânt sylw ar unwaith ni ddylent achosi unrhyw gostau neu oedi ychwanegol yn yr amserlen. Mae gwaith Ecolegol Gadarnhaol yn gwneud yn dda yn y cam cynnar hwn yn y rhaglen. Mae gwaith lleihau'r gadwyn gyflenwi yn parhau gyda dull cytunedig i'w ddefnyddio er budd lleol. Mae sawl achos busnes a chais am gyllid amrywiol wedi'u datblygu yn ystod y cyfnod drwy'r Grŵp Buddsoddi Strategol a'r Bwrdd Cyllideb, gan gynnwys ar gyfer cam II ein Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan. Rydym hefyd wedi cyflwyno ein hadroddiad carbon i Lywodraeth Cymru.

Ym mis Gorffennaf, bu i'r cyngor dderbyn Gwobr Efydd Sefydliad Llythrennog o ran Carbon, gan fod yn un o 52 sefydliad llythrennog o ran carbon yn y DU ac Iwerddon. Mae'r wobwr yn cydnabod ein cymhelliant parhaus i fod yn garbon niwtral. Mae diogelu a gwella ein hamgylchedd yn brif flaenoriaeth i ni ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i barhau i leihau ein hól troed carbon a chynyddu bioamrywiaeth ar draws Sir Ddinbych.

### **Ar y trywydd iawn: Rheoli Rhostir**

Mae'r prosiect yn parhau ac ar y trywydd cywir a'r dyddiad cwblhau disgwylidig yw Hydref 2023. Rydym wedi gweithio'n galed ar y prosiect i geisio lliniaru'r risg i'n cefn gwlad darluniadwy. Roedd Sioe Frenhinol Cymru a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf yn gyfle i ni arddangos y prosiect cydweithredol, gan rannu yr hyn a ddysgwyd gyda pherchnogion tir a ffermwyr, a hyrwyddo technegau rhagweithiol i reoli tir a buddion gweithio gyda'n gilydd i wneud Cymru'n fwy gwydn yn erbyn tanau gwyllt yn y dyfodol.

Osgowyd tân gwyllt difrifol ym mis Awst diolch i wylidwriaeth y cyhoedd a chamau brysgan Dîm Ceidwaid Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghoed Moel Famau. Ar ôl clywed amdano, bu i'r Ceidwaid archwilio ar unwaith a chanfod tân agored a adawyd wedi'i gynnau mewn man anghysbell yn y goedwig. Hyd yn oed ar ôl ei ddiffodd, fe ailgydiodd y tân yn ddiweddarach yn y dail, nodwyddau coed pîn a'r pridd mawnog a lledaenu dros ambell fetr. Unwaith eto bu modd i Geidwaid yr AHNE a aeth i wirio'r safle osgoi argyfwng drwy alw am gymorth Gorsaf Dân Rhuthun i wlychu llawr y goedwig gyda miloedd o litrau o ddŵr. Bu i'r camau ar y cyd atal digwyddiad difrifol rhag digwydd.

## **Yn wynebu risg: Tai Cyngor sy'n Defnyddio Ynni'n Effeithlon**

Er bod hyder mewn darpariaeth wedi'i beryglu ers Covid-19, rydym wedi cyflawni cynnydd da o ran cynyddu nifer yr eiddo, gyda chyfanswm presennol o 1,347, sydd wedi cyflawni targed ynni o C neu uwch.

Mae ymgynghoriad [Safon Ansawdd Tai Cymru 2023](#) wedi cau yn awr, a disgwylir dogfen ddrafft erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym yn credu y bydd y polisi newydd yn cael effaith sylweddol ar dargedau ar lefel genedlaethol, ac mae'n bosibl y bydd yn dylanwadu ar raglenni gwaith i'r dyfodol a phenderfyniadau rheoli asedau allweddol ar gyfer ein stoc dai.

## **Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl a Phrestatyn**

Yn y [cyfarfod ym mis Medi](#), ystyriodd Pwyllgor Craffu Cymunedau adroddiad ar werth a buddion buddsoddi yng nghynlluniau Canol y Rhyl a Phrestatyn. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r argymhellion i symud ymlaen â'u cymeradwyaeth er mwyn i'r cynlluniau gael eu cyflwyno i'r Grŵp Buddsoddi Strategol, y Cabinet a'r Cyngor Sir yn y drefn honno i dderbyn eu cymeradwyaeth.

## **Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Blodau Gwyllt**

Mae'r Prosiect Blodau Gwyllt yn brosiect cydweithredol rhwng y Tîm Bioamrywiaeth, Gwasanaethau Stryd ac adrannau eraill sy'n anelu i greu dolydd lleol trefol a lled-drefol drwy drefn 'torri a chasglu' llai. Mae'r prosiect hwn yn hanfodol i derfynu a gwrthdroi colled bioamrywiaeth a mynd i'r afael ag Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol. Wrth i dymor blodeuo ddod i ben ar ddiwedd mis Awst, bu i staff y Gwasanaethau Stryd ymweld â safleoedd ar draws y sir i dorri ardaloedd gydag offer torri arbenigol. Tynnwyd yr hyn a dorwyd o'r



dolydd i gynorthwyo i leihau pa mor fras oedd y pridd ac i gefnogi tir maeth isel y mae ein blodau gwyllt cynhenid a'r glaswelltydd ei angen i dyfu. Mae'r cyngor eisoes wedi cofnodi tegeirian porfforin cynnar eleni, tegeirian pyramydaidd a naw tegeirian gwenynog ar safleoedd ble nad oeddent wedi eu cofnodi o'r blaen.

Yn ei [gyfarfod ym mis Medi](#), derbyniodd y Pwyllgor Craffu Cymunedol adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i wella ymgysylltu a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i holl rhanddeiliaid y Prosiect Bywyd Gwyllt. Cadarnhaodd y pwyllgor eu cymeradwyaeth o'r cynnydd a wnaed hyd yma i ddarparu'r buddion a ddisgwylir, ac addo eu cefnogaeth barhaus ar gyfer y prosiect.

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd staff yn teithio i'r gwaith - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	1,719	2,045	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd teithiau busnes - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	126	163	Rhagorol
Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru oherwydd cadwyni cyflenwi - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	22,206	31,409	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Y ganran o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	38.1	41.0	Derbyniol

<b>Llinyn Mesur</b>	<b>2020 - 2021</b>	<b>2021 - 2022</b>	<b>Statws</b>
STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	213.00	432.00	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran stoc dai presennol ac wedi'i gaffael gan y cyngor (gwaelodlin 1 Ebrill 2017) yn cyflawni graddfa EPC (Ynni) C neu well - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	46	53	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y coed a blannwyd yn flynyddol i gynyddu'r gorchudd o goed yn y Rhyl a Dinbych - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	4400	3,500	Rhagorol
Nifer yr eiddo gyda llai o risg o lifogydd - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Dim data	1,650	Rhagorol

### **Arolygon Budd-ddeiliaid 2018 i 2022**

<b>Llinyn Mesur</b>	<b>2018 - 2019</b>	<b>2021 - 2022</b>	<b>Statws</b>
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? – Cefn Gwlad – <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	87	85	Rhagorol
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? -Traethau – <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	70	69	Da
Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? - Parciau – <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	64	59	Derbyniol

### **Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol**

Nid yw ein llinyn mesur ar ganran y tai cyngor newydd sy'n cael sgôr EPC (Ynni) A ar gyfer 2021-2022 yn berthnasol gan na chwblhawyd unrhyw waith adeiladu yn y cyfnod

hwn. Fodd bynnag, disgwylir y bydd 40 o dai newydd yn cyflawni sgôr EPC (Ynni) A yn 2022-2023.

## Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **cadernid, ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**. Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Canllaw Gwyrdd i Wella'r Amgylchedd.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi cyhoeddi canllaw darluniadol o fenter Isadeiledd Gwyrdd Llangollen. Wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad gyda'r gymuned leol a'i arwain gan swyddog arweiniol newid hinsawdd yr AHNE, mae'r canllaw yn nodi chwe lleoliad adnabyddus yn y dref a sut byddent yn elwa o ychwanegiadau Isadeiledd Gwyrdd. Mae pob lleoliad wedi'u cysylltu gan lwybr Isadeiledd Gwyrdd, sy'n goridor gwyrdd heb draffig yn bennaf a ddylai annog teithio llesol. Mae'r canllaw yn edrych ar y sefyllfa bresennol yn y dref, yn nodi'r egwyddorion sylfaenol sy'n ofynnol i ddarparu rhwydwaith gysylltiedig o ofodau gwyrdd a fyddai er budd yr ecosystem leol, ac yn argymhell gwelliannau a fyddai'n gwireddu'r amcanion Isadeiledd Gwyrdd.

Trwy **gynnwys** y gymuned, gweithio **ar y cyd** ac **integreiddio** gyda phartneriaid a sefydliadau, mae'r cyhoeddiad yn nodi dechrau trafodaeth sy'n ein symud at amcanion **hirdymor** i greu Llangollen sy'n fwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan **atal** niwed pellach i'r amgylchedd. Mae fersiynau papur o'r canllaw ar gael o swyddfa'r AHNE yn Llangollen ac yn swyddfa Parc Gwledig Loggerheads.

## Beic Tair Olwyn Cargo Trydan

Ym mis Mehefin eleni benthycwyd beic tair olwyn cargo trydan gan Sustrans fel cynllun prawf yn safle Pwll Brickfields, y Rhyl, i fynd i'r afael ag amserlen waith ddyddiol yr ardal. Fe'i dyluniwyd i gynorthwyo i leihau allyriadau, lleihau costau gweithredu a chynorthwyo i wella ymgysylltiad gydag aelodau cymunedol tra allan yn gweithio. Tra roedd yn y

warchodfa natur fe'i defnyddiwyd i gyflawni gwaith ffensio ac i ganiatáu i Geidwaid gario offer rhwng eu gweithle ac amrywiaeth o safleoedd lle'r oedd angen gwaith strimio, torri llwyni a gwaith tocio i gynnal mynediad i'r cyhoedd. Roedd staff cefn gwlad wedi mwynhau ei brofi.

Mae addasu sut yr ydym yn gweithio a **chynnwys** ein staff yn y mathau hyn o ddatrysiadau amgen yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd yr hyn yr ydym yn ei wneud yn **hirdymor**, gan **atal** niwed i'r amgylchedd naturiol drwy **gydweithio** ac **integreiddio** adeiladol.

## **Siop Ailddefnydd yng Nghanolfan Ailgylchu'r Rhyl**

Mae siop aildefnydd elusenol newydd ac arloesol wedi agor ei ddrysau'n swyddogol i'r cyhoedd yn y Rhyl. Bob blwyddyn mae sawl eitem y gellir eu haildefnyddio yn cael eu cyflwyno fel gwastraff yn ein canolfannau ailgylchu, ond gallai rhywun arall ddefnyddio'r rhain. Mae'r prosiect a ddatblygwyd mewn **cydweithrediad** gyda Bryson Recycling, y cyngor, Hosbis Dewi Sant, a chefnogaeth gan Gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru'n ffordd wych o **gynnwys** pobl a newid sut mae pobl yn ystyried eitemau nad oes eu hangen arnynt mwyach yn **hirdymor**. Mae hefyd er budd nodweddion a ddiogelir **Oedran** ac **Anabledd**, ynghyd â'r rhai dan **anfantais economaidd gymdeithasol**, ac yn **integreiddio** gydag uchelgeisiau 'Tu Hwnt i Ailgylchu' Llywodraeth Cymru. Byddem yn annog pawb i gymryd mantais o Siop Ailddefnydd y Rhyl, sydd ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 9am tan 4.30pm (9am tan 4pm fis Tachwedd i fis Mawrth) a 9am tan 3.30pm ar ddydd Sul.

## **Biniau â microsglodyn ynddynt**

Mae preswylwyr mewn rhannau o Orllewin y Rhyl wedi derbyn biniau newydd fel rhan o raglen ehangach o newidiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn y sir y flwyddyn nesaf. Mae biniau du newydd sy'n fwy o faint wedi'i dosbarthu i dros 900 eiddo ar draws 26 stryd fel rhan o brosiect peilot; ac mae rhai eiddo wedi derbyn biniau glas newydd hefyd. Mae microsglodyn ynddynt, sy'n galluogi'r cyngor i nodi biniau sy'n perthyn i eiddo unigol er mwyn gwella ein gohebiaethau yn y dyfodol. Mae'r cyngor aml angen cysylltu â defnyddwyr y biniau i ddarparu cefnogaeth a chyngor o ran lleoliad storio eu biniau, a pha wastraff sydd angen ei roi ym mhob bin. Mae gallu

canfod y bobl gywir i siarad â nhw ar unwaith yn arbed amser gwerthfawr ac yn lleihau'r risg bod gwastraff yn dianc i'r amgylchedd, neu bod eitemau da yn cael eu halogi.

Bydd **cynnwys** preswylwyr mwy a mwy mewn arferion ailgylchu da yn gwella cyfraddau ailgylchu yn ein sir a chynorthwyo i **atal** arferion rheoli gwastraff gwael a niwed i'n hamgylchedd yn **hirdymor**. Rydym hefyd yn **integreiddio** a **chydweithio** gydag un o uchelgeisiau Llywodraeth Cymru bod Cymru yn parhau i fod yn un o'r cenedlaethau sy'n ailgylchu fwyaf yn y byd. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n preswylwyr dros y misoedd sydd i ddod i sicrhau bod y cynllun newydd yn llwyddiant ar gyfer eu cymuned.

## **Wal Fyw**

Prosiect arall yn ychwaneg i'r uchod yn y Rhyl yw wal fyw a osodwyd yn ddiweddar ar adeilad Canolbwynt Strategaeth Dinas y Rhyl ar gornel Ffordd Wellington a Stryd Elwy. Mae'r datblygiad yn cynnwys deuddeg metr sgwâr o blannu fertigol mewn system fodwlar, system ddyfrio i ddarparu dŵr a bwyd i'r planhigion yn awtomatig, a thanc islaw er mwyn gallu ailgylchu dŵr.

Wedi'i ddarparu mewn **cydweithrediad** ac yn **integreiddio** gyda chyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mae'r prosiect yn rhan o fenter werdd ehangach canol y dref sy'n ceisio **cynnwys** cymunedau ac **atal** niwed i'n hamgylchedd yn **hir dymor**. Bydd buddion yn cynnwys gwella ansawdd aer a mwy o fioamrywiaeth drwy ofod nythu a bwyd ar gyfer adar a phryfaid, tra'n gwella lles pobl mewn ardal o **anfantais economaidd gymdeithasol**.

## **Cynnal a chadw traethau**

Mewn partneriaeth gyda Chyngor Tref y Rhyl, Rhanbarth Gwella Busnes y Rhyl, a Chadwch Gymru'n Daclus, mae'r cyngor wedi derbyn cribin newydd er mwyn gallu gwella'r gwaith glanhau, gan sicrhau nad oes sigarennau, plastig, gwydr nac eitemau eraill yn y Rhyl yn ystod misoedd yr haf, gan **atal** niwed a diogelu'r ardal o harddwch naturiol rhag gwenwyn a sicrhau safon uchel o lendid ar gyfer pobl leol a thwristiaid. Bydd y cribin yn ategu at y gwaith gwych a wneir eisoes i gadw traeth y Rhyl yn lân gan grwpiau cymunedol gwirfoddol, fel 'Surfers Against Sewage' a'u gwaith glanhau rheolaidd.

Yn ogystal â'r cribin traeth, mae'r Gwasanaethau Stryd wedi prynu troliau casglu gwastraff trydanol gyda chyfraniadau gan bartneriaid allweddol, a fydd yn cael eu cyflwyno mewn

ardaloedd i gerddwyr sy'n brysur i gludo gwastraff lle bo mynediad yn anodd i gerbydau traddodiadol yn ystod cyfnodau prysur a digwyddiadau, fel Sioe Awyr y Rhyl. Rydym wedi darparu cyllid ar y cyd ar gyfer sugnwr llwch trydan i lanhau strydoedd, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn ardal Canol Tref y Rhyl.

Bydd y camau er budd ardal o **anfantais economaidd gymdeithasol** ac yn helpu i feithrin ymdeimlad o falchder yn y Rhyl fel ardal leol, gan annog **cyfranogiad** y preswylwyr ac ymwelwyr i gynnal a chadw'r traeth a'r dref yn **hirdymor**, ac **atal** niwed i'r amgylchedd adeiledig a naturiol. Rydym wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid i helpu i weithredu'r mesurau hyn, gan ddangos **integreiddiad** a **gwaith ar y cyd** gwyd.

## Gronant

Y grŵp o Fôr-wenoliaid Bychain ar draeth Gronant ger Prestatyn yw'r nythfa fridio fwyaf yng Nghymru. Mae tymor 2022 yn nodi 18 mlynedd ers i Wasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych ymrwymo i warchod y nythfa. Ar ôl codi'r cyfyngiadau Covid-19, roedd modd cynnal gweithgareddau llawn ar y safle eto, a daeth dros 1,138 o ymwelwyr i ymweld â'r traeth a chefnogi a gweld y nythfa. Cofnodwyd 211 o barau bridio eleni, y nifer uchaf sydd wedi'i gofnodi yng Ngronant, sy'n gynnydd o 23% ar y cyfrif diwethaf yn 2018. Y gred gyffredin yw mai'r llinell sylfaen i gynnal nythfa o Fôr-wenoliaid Bychain yw 0.74 aderyn ifanc fesul pâr, ac roedd ffigwr y nythfa eleni'n 0.99 aderyn ifanc fesul pâr, sy'n arwydd cadarnhaol am ddyfodol yr adar prin yma. Daeth bron i 300 o blant i ymweld â'r safle y tymor hwn hefyd, diolch i waith swyddog ymgysylltu a wardeiniaid y prosiect. Roedd dros 200 o blant yn ychwanegol wedi bod yn rhan o'r prosiect hefyd, drwy gynnal ymweliadau ag ysgolion.

Dros y tymor, bu unigolion o Grŵp Môr-wenoliaid Bychain Gogledd Cymru, Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych, Merseyside Ringing Group, Prifysgol Bangor, Ysgol Uwchradd Prestatyn a Chymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn rhoi eu hamser i wirfoddoli gyda'r prosiect. Roedd cyfanswm y gefnogaeth yn dros 600 awr o wirfoddoli. Bu'r gwirfoddolwyr yn helpu i hel cudyllod coch oedd yn ceisio cael gafael ar y cywion oedd ar lawr, a helpu gyda thasgau eraill, o gnocio pyst i adnabod lluniau.

Derbyniodd y twyni yng Ngronant Wobr Baner Werdd Cadwch Gymru'n Daclus am y tro cyntaf y llynedd, sy'n darparu safon ansawdd cenedlaethol a fframwaith ar gyfer gofod gwyrdd. Ym mis Medi, croesawyd y newyddion bod Twyni Tywod Gronant wedi cadw ei

statws Baner Werdd ar gyfer 2022 - 2023; arwydd i'r cyhoedd bod y parc neu ofod gwyrdd yn cynnal y safonau amgylcheddol uchaf posibl, yn cael ei gynnal yn hardd, ac â chyfleusterau rhagorol i ymwelwyr.

Mae'r llwyddiant yn deillio o weithio **ar y cyd**, gan **gynnwys** pobl i sicrhau dyfodol **hirdymor** y nythfa fridio, diogelu'r traeth, ac **atal** niwed i'r amgylchedd naturiol hardd. Mae'n safle sy'n sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **Oedran ac Anabledd**, ac yn gymorth i'r rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

## **Meithrin Twristiaeth**

Mae Cynllun Llysgenhadon Cymru ar-lein, sy'n darparu cyfres o fodiwlau hyfforddi a gwybodaeth ar rinweddau arbennig ardaloedd yng Nghymru, yn parhau i dyfu. Mae'r modiwlau'n cynnwys y Gymraeg, cymunedau, diwylliant, hanes, twristiaeth gynaliadwy, beicio a cherdded. Mae'r hyfforddiant am ddim ac yn agored i bawb. Fe anogir preswylwyr, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol lleol i fod yn Llysgenhadon i ddysgu mwy am rinweddau unigryw pob ardal. Sir Ddinbych oedd y cyntaf i lansio cwrs ar-lein o'i fath yng Nghymru. Mae Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog, Conwy a Gwynedd eisoes wedi lansio cyrsiau ac mae Sir y Fflint, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn brysur yn paratoi i lansio yn ddiweddarach eleni. Hyd yma, mae dros 2,600 o bobl wedi cofrestru ar o leiaf un o'r cyrsiau ar y wefan gyda 1,684 yn ennill tystysgrif lefel efydd ar draws 5 cwrs. Mae cyfanswm o 4,330 o dystysgrifau efydd, arian ac aur wedi'u rhoi i Llysgenhadon. Am ragor o wybodaeth am y cynllun ac i gofrestru, ewch i'r wefan ar gyfer [Llysgenhadon Cymru](#).

Roedd 'Clwyd' yn rhan o Sioe Frenhinol Cymru eleni, gyda Sir Ddinbych, Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam yn gweithio o dan faner sir Clwyd i ganolbwyntio ar 'Ffordd y Gogledd', un o dri llwybr (gyda 'Ffordd Cambria' a 'Ffordd yr Arfordir') sy'n rhan o 'Ffordd Cymru'. Mae Ffordd y Gogledd yn dilyn yr hen lwybr masnachu am 75 milltir ar hyd arfordir y gogledd i Ynys Môn. Yn y sioe, roedd y pedair sir yn darparu arddangosfeydd gwybodaeth i ymwelwyr, gydag ystod eang o ddeunydd hyrwyddo; ffilmiau'n hyrwyddo'r rhanbarth, ac arddangos cynnyrch bwyd a diod lleol. I gael rhagor o wybodaeth am Ffordd y Gogledd, ewch i [wefan Gogledd Ddwyrain Cymru](#).

Bydd **integreiddio** gydag uchelgais busnesau lleol, preswylwyr ac ymwelwyr, hyrwyddo ein twristiaeth a chefnogi dysgu parhaus drwy raglenni **cydweithio** gwych fel Cynllun

Llysgenhadon yn cynorthwyo mwy o bobl i fuddsoddi a **chyfranogi** yng nghyfoeth hanesyddol, diwylliannol ac amgylcheddol ein sir; ynghyd â chefnogi ei lwyddiant economaidd yn **hir dymor**, gan **atal** bod yn segur. Gall gael effaith gadarnhaol ar les pobl; boed i ddysgu mwy am yr ardal, gwella rhagolygon swyddi neu gwrdd â phobl newydd. Bydd yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **Oedran** ac **Anabledd**, ac yn gymorth i'r rheiny dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

## **Mynd i'r afael â Llygredd Ffosfforws**

Yn y [cyfarfod ym mis Medi](#), cafodd y Cabinet wybod bod safonau ffosfforws newydd wedi cael eu gosod ar gyfer naw o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonydd Cymru a bod tua 38% o gyrff dŵr a arolygwyd yn ardal cydymffurfiaeth "ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid" wedi methu â chyrraedd y targed. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint wedi ymrwmo i sefydlu Bwrdd Rheoli Maethynnau ac argymhellwyd bod Cyngor Sir Ddinbych yn ymuno â'r bartneriaeth i alluogi dull dalgylch cyfan o wella ansawdd dŵr yn Afon Dyfrdwy, a sicrhau bod y cyngor yn gallu cyflawni prosiectau cymunedol lleol a Gwasanaeth Cynllunio effeithlon dan Reoliadau Cynefinoedd 2017. Roedd yr adroddiad yn nodi manylion y fframwaith cyfreithiol, y strwythur, y gofynion posibl o ran adnoddau a'r llwyth gwaith cynnar. Cydnabu'r Cabinet bwysigrwyd mynd i'r afael â llygredd ffosfforws am resymau amgylcheddol a'r effaith ar geisiadau cynllunio, yn cynnwys darpariaeth tai yn y dyfodol, ac roeddent yn llwyr gefnogi'r cynnig i ymuno â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau.

Bydd **integreiddio** a **chydweithio** gyda'n hawdurdodau partner, a chydabod uchelgais Llywodraeth Cymru, i weithio ar y mater pwysig hwn yn **atal** niwed i'n llwybrau dŵr pwysig a chynnal eu harddwch ac ecosystemau pwysig er budd cenedlaethau'r dyfodol yn **hirdymor**. Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain, a bydd angen **cynnwys** perchnogion tir, ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr tir a busnesau.

## **Ystâd Ddiwydiannol Colomendy**

Ym mis Medi cydnabuwyd y gwaith galluogi gan Jones Bros yn yr ystâd ddiwydiannol ar gyfer cyfleuster Trosglwyddo Gwastraff newydd y cyngor ar gyfer gwastraff domestig, masnachol a phriffyrdd yng Ngwobrau Blynyddol Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru 2022, gan gyrraedd y rhestr fer ar gyfer dwy wobr - Gwobr Roy Edwards a Gwobr Alun Griffiths



ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae'r gwobrau yn dangos gwaith rhagorol gan beirianwyr sifil ar draws y rhanbarth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn falch iawn bod y **cydweithrediad** arloesol wedi'i gydnabod gan Wobrau ICE, yn enwedig i gydnabod **cyfranogiad** y gymuned. Y gobaith yw bydd y prosiect yn darparu datrysiad cynaliadwy **hirdymor** i gefnogi ein hymdrechion rheoli gwastraff sy'n diogelu ac **atal** niwed i'r amgylchedd. Bydd y swyddi a'r cyfleoedd sy'n deillio o'r cynllun yn elwa nodweddion a ddiogelir **Oedran**, a'r rhai dan **anfantais economaidd gymdeithasol**.

## **Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny**

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Prosiectau: Da

### **Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur**

Dim ond un darn o wybodaeth sydd i'w nodi yn yr adroddiad hwn ar gyfer ein fframwaith data ar gyfer Pobl Ifanc; mae'n ymwneud â chyfrif hawl wyr 18 i 24. Mae'r data ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi yn nodi ychydig o gynnydd yng nghyfrif hawl wyr Sir Ddinbych, yn awr yn 5.3% ( i fyny o 4.9% ym mis Mehefin). Mae'r cynnydd yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol, gyda chyfartaledd Cymru a'r DU hefyd yn cynyddu. Rydym yn parhau i fod y tu ôl i gyfartaledd Cymru, sef 4.3% (i fyny o 4.1%). Nid yw cyfrif hawl wyr y DU wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig (a oedd yn is na Chymru yn y gorffennol), nawr yn 4.6%, (i fyny o 4.3% ym mis Mehefin).

Gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, rydym yn parhau i fethu â defnyddio data presenoldeb a chyrhaeddiad i feincnodi perfformiad ein hysgolion. Ond, mae'n rhaid i ni longyfarch y disgyblion a gafodd eu canlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch yn ystod yr haf. Mae dysgwyr wedi parhau i wynebu heriau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, a gwnaed cryn dipyn o waith gan ddisgyblion, teuluoedd, ysgolion a phartneriaid i sicrhau y ceir y canlyniadau gorau posibl.

A mwy o newyddion da, mae Canolfan y Dderwen yn y Rhyl, sy'n darparu gofal plant ar gyfer plant rhwng wyth wythnos oed a 12 mlynedd, wedi derbyn adroddiad cadarnhaol yn dilyn arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Gwnaed dau argymhelliad ar gyfer gwella, y bydd y cyngor yn eu symud ymlaen. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar [wefan Arolygiaeth Gofal Cymru](#).

## **Bwrdd Rhaglen y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect**

### **Yn profi rhwystrau: Moderneiddio Addysg**

Yn dilyn rhybudd o gynnig ym mis Ionawr 2022, a ddeilliodd o bryderon dros gyflwr Ysgol Uwchradd Prestatyn, gofynnodd y Cyngor Sir bod arolwg cyflwr pob ysgol yn cael ei adolygu i weld a oeddent wedi newid i raddau lle byddai angen newid trefn flaenoriaeth bresennol yr ysgolion. Penderfynwyd yng [nghyfarfod y Cabinet ym mis Gorffennaf](#) na chafwyd unrhyw newid sylweddol mewn perthynas â chyflwr adeiladau ysgolion, a bod trefn polisi presennol yr ysgolion yn gyfredol a chywir.

Cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Ysgol Plas Brondyffryn ac roedd ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio yn fyw tan 18 Hydref. Mae cynigion ar gyfer cyfnewid tir Ysgol Pendref yn cael eu hadolygu er mwyn i gyfarfod yr Ymddiriedolwyr ystyried yr opsiynau. Mae canfyddiadau gwaith dichonoldeb cynllun Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant hefyd i ddod.

Mae nifer o adroddiadau terfynu ar gyfer Band A hefyd yn cael eu datblygu i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

### **Yn profi rhwystrau: Lleoliadau Gofal Plant**

Mae'r rhaglen yn parhau i ddatblygu nifer o brosiectau bach o dan Grant Cyfalaf Gofal Plant / Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg. Mae cynnydd wedi bod yn araf ar y gwaith yng Nghanolfan y Dderwen yn y Rhyl, gyda'r cynllun wedi mynd tu hwnt i'r dyddiad cwblhau cychwynnol. Mae tendr diwygiedig ar gyfer prosiect Twm o'r Nant wedi'i dderbyn ac roedd dros y gyllideb a ragwelwyd eto. Mae'r prosiect yn Ysgol Dewi Sant wedi gweld cynnydd yn y costau a ragwelwyd ac wedi'i oedi oherwydd materion gyda'r draeniau.

### **Yn wynebu risg: Dechrau Gwaith**

Mae'r prosiect yn awr mewn perygl gan fod oedi o hyd o ran cyhoeddiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU, a oedd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Awst ond ni ddisgwylir cyhoeddiad tan ddiwedd Hydref yn awr. Ni chytunwyd ar unrhyw gyllid ychwanegol i gefnogi'r prosiect y tu hwnt i fis Rhagfyr, sy'n cyflwyno perygl y bydd staff yn

colli swyddi. Rydym yn parhau i fod ar y trywydd cywir i gyflawni'r targedau presennol tan ddiwedd Rhagfyr 2022.

## Ar y trywydd iawn: Gwirfoddoli

Bydd Partneriaid Busnes AD yn gweithio gyda gwasanaethau i adnewyddu eu cynrychiolaeth ar Rwydwaith Gwirfoddolwyr Mewnol. Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau sydd heb gyfranogi eto i ystyried lle mae cwrpas i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli yn y dyfodol. Yn y cyfamser, roedd cyfleoedd gwirfoddoli byw yn cael eu hyrwyddo yn y Ffair Recriwtio a gynhaliwyd yn ddiweddar dan arweiniad AD, ac mae templedi newydd ar gyfer rheolwyr gwirfoddol i'w cwblhau cyn eu hychwanegu at eu tudalennau gwe dynodedig. Yn ogystal â hyn, mae e-bost gwirfoddolwyr yn weithredol eto, ac mae ffurflen ar-lein y gall pobl sydd eisiau gwirfoddoli ei defnyddio i gofrestru. Yna mae hyn yn cael ei baru yn erbyn cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael.

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2020 i 2022

Llinyn Mesur	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - <b>wedi'i feincnodi yn genedlaethol</b>	Dim data oherwyd d Covid-19	Dim data oherwyd d Covid-19	Rhagorol (yn seiliedig ar 2019 i 2020)
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd - <b>wedi'i feincnodi yn genedlaethol</b>	Dim data oherwyd d Covid-19	Dim data oherwyd d Covid-19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella (yn seiliedig ar 2019 i 2020)
Canran y plant 4-5 oed sy'n bwysau iach neu dan bwysau (adroddwyd blwyddyn yn hwyrach )- <b>wedi'i feincnodi yn genedlaethol</b>	71.8	Dim data oherwyd	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

<b>Llinyn Mesur</b>	<b>2020 - 2021</b>	<b>2021 - 2022</b>	<b>Statws</b>
		d Covid-19	
Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau Awdurdod Lleol - CA4 Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru - <b>wedi'i feincnodi yn genedlaethol</b>	Dim data oherwyd d Covid-19	Dim data oherwyd d Covid-19	Rhagorol (yn seiliedig ar 2019 i 2020)
Canran y plant yn cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2, Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Cymraeg (iaith 1af) neu Saesneg, Mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd, yn erbyn y canran wnaeth gyflawni'r safon disgwylidig ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) – <b>wedi'i feincnodi yn genedlaethol</b>	Dim data oherwyd d Covid-19	Dim data oherwyd d Covid-19	Derbyniol (yn seiliedig ar 2019 i 2020)
Y nifer o ysgolion yn darparu addysg drwy addasrwydd a chategoriâu cyflwr C a D - <b>wedi'i feincnodi yn lleol</b>	27	27	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y disgyblion yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS sy'n ymateb yn gadarnhaol yn erbyn teimladau disgyblion am yr ysgol - <b>wedi'i feincnodi yn lleol.</b>	87.2	Dim data gan nad oedd Arolwg.	Da
Y cynnydd canrannol yng nghyflogau pobl ifanc sydd wedi cofrestru â'r Prosiect Bwrsariaeth Cyflogaeth - <b>wedi'i feincnodi yn lleol</b>	17	16	Rhagorol

## Data 2018 i 2022

Llinyn Mesur	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfa - <b>wedi'i feincnodi yn lleol</b>	19	19	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau - <b>wedi'i feincnodi yn lleol</b>	28	26	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd hamdden sy'n apelio at bobl ifanc - <b>wedi'i feincnodi yn lleol</b>	50	40	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Llinyn Mesur	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Chwarter 2 2022 - 2023	Statws
Canran o'r boblogaeth 18 i 24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - <b>wedi'i feincnodi'n genedlaethol</b>	7.5	6.9	6.2	4.9	5.3	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

## Llesiant a Chydraddoldeb

Mae a wnelo'r flaenoriaeth hon â'r pum ffordd o weithio ac mae'n cefnogi Nodau Lles Cymru'n uniongyrchol yng nghyswllt **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant,**

**cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Isod ceir mwy o uchafbwyntiau o'r gwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn aeth heibio yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; bu'r rhain yn fuddiol hefyd i bobl â nodweddion a ddiogelir a phobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## **Haf o Hwyl a Diwrnod Chwarae Cenedlaethol**

Daeth 'Haf o Hwyl' yn ôl ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych eleni, gyda'r cyngor yn darparu ystod o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chwarae yn rhad ac am ddim ac yn ddwyieithog fel rhan o brosiect Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd digwyddiadau ar draws y sir rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi, ac roedd yn agored i bobl ifanc rhwng 0 a 25 oed.

Yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, trefnodd y cyngor ddiwrnod gwych i'r teulu cyfan yn y Rhyl. Cynhaliwyd dathliadau'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol blynyddol yng nghaeau chwarae Ysgol Christchurch. Roedd y digwyddiad mawr yn cynnwys cyfres o weithgareddau, gan gynnwys creu cuddfan, celf a chreffft, chwarae blêr, dinas bocsys cardfwrdd, gwisgo fyny, ysgolion coedwig, cestyll neidio, sgiliau syrcau, peintio, chwarae â dŵr, creu blychau adar, gemau mawr, bynji a llawer mwy.

Wedi'i ddarparu mewn **cydweithrediad** gyda Llywodraeth Cymru, gan **integreiddio** ein nodau i annog mynegiant iach drwy weithgareddau chwarae, roedd ein digwyddiadau yn ceisio cefnogi lles ein preswylwyr drwy **gynnwys** y gymuned, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae digwyddiadau fel hyn yn **atal** arwahanrwydd, er budd nodwedd a ddiogelir **Oedran**, a chynorthwyo'r rhai dan **anfantais economaidd gymdeithasol**; ynghyd â chreu atgofion **hirdymor** a chefnogi datblygiad plant a sgiliau.

## **Sialens Ddarllen yr Haf**

Anogwyd plant rhwng 4 a 11 oed i ymweld â llyfrgelloedd lleol yn Sir Ddinbych yn ystod yr haf i gwrdd â'r Dyfeiswyr ac i gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf ar thema gwyddoniaeth ac arloesi. Gyda deunyddiau am ddim o lyfrgelloedd ac ar-lein drwy [wefan y Sialens](#), bydd plant yn gallu uno chwe chymeriad o fyd ffuglen a defnyddio eu menter i ddeall gwyddoniaeth y tu hwnt i ystod eang o ddiddordebau, o ffasiwn i dechnoleg, i goginio a cherddoriaeth. Bydd digwyddiadau Sialens Ddarllen yr Haf mewn llyfrgelloedd yn cynnwys gweithdai gwyddoniaeth gyda Xplore, a gweithdai Lego gyda G2G, sesiynau

stori a dawns Words and Wiggles gyda Eleni ar gyfer rhai dan 5 oed, ac amser rhigwm Dechrau Da i fabanod.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i **gydweithio** ac **integreiddio** gyda'n partneriaid i ddarparu cynlluniau fel hyn a fydd o fudd i les a datblygiad ein pobl ifanc yn **hirdymor**, gan **atal** amddifadedd ac arwahanrwydd drwy **gyfranogiad**. Bydd y gwaith yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **Oedran**, a'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol**.

## **Newid Hinsawdd**

Gofynnwyd i ddisgyblion Sir Ddinbych i ychwanegu neges dros amser i'n cynorthwyo i greu gwell dyfodol drwy ddychmygu ein bod wedi symud ymlaen i 2050. Gofynnwyd iddynt anfon cerdyn post yn ôl at eu hunain pan oeddent yn iau i egluro sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar eu bywydau. Anogwyd y rhai oedd yn cymryd rhan i ddychmygu beth sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd i helpu'r amgylchedd a lleihau newid hinsawdd, effaith technoleg newydd ar bobl a'r amgylchedd, sut mae anifeiliaid yn goroesi yn y dyfodol, ac effaith y tywydd.

Mae gan ein pobl ifanc ddealltwriaeth rhagorol o sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar ein bywydau bob dydd a sut bydd yn effeithio arnom yn y dyfodol, a'r gobraith yw y bydd eu **cynnwys** yn y prosiect yn arwain at leisio eu safbwyntiau a hyrwyddo camau gweithredu **ar y cyd** ac **integredig** er mwyn newid, gan **atal** rhagor o niwed i'n hamgylchedd yn **hirdymor**. Mae'r gystadleuaeth er budd uniongyrchol i nodwedd a ddiogelir **Oedran**, ac yn cael ei gefnogi gan Ganolfan Technoleg Amgen (CAT). Mae gwytodaeth am y gystadleuaeth ar gael ar [ein gwefan](#). Bydd y disgyblion a'r ysgolion buddugol yn cael eu cyhoeddi ar 12 Rhagfyr.

## **TRAC a Llwybrau**

Bu i TRAC, prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc nad ydynt yn ymwneud ag addysg i wireddu eu potensial, ddathlu ei gyflawniadau mewn digwyddiad arbennig ym mis Gorffennaf. Gyda chefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, sefydlwyd y prosiect yn 2015 ac mae wedi gweithio gyda 18 o gwmnïau lleol i ddarparu 126 o gyrsiau unigryw i bobl ifanc yn Sir Ddinbych i fynd i'r afael â'u hanghenion a darparu ymgysylltiad o ansawdd a darpariaeth achrededig. Hyd yma mae 1,995 o bobl ifanc wedi derbyn



cefnogaeth drwy ddarparwyr amrywiol, gan gynnwys mentoriaid cefnogi, swyddogion ieuenctid, cwnsela, cyrsiau unigryw a chefnogaeth gan Gyrfa Cymru. Mae 304 o bobl ifanc wedi derbyn cymwysterau drwy'r gefnogaeth a gawsant, ac mae 471 o ostyngiad mewn rhai yn dod yn NEET (Ddim mewn Addysg, Ymgysylltiad neu Gyflogaeth). O'r cyfranogwyr mae 78.8% wedi parhau mewn addysg llawn amser, ac mae 13.3% pellach wedi symud ymlaen i gwrs lefel uwch llawn amser yn y coleg. Dros gyfnod y prosiect mae ffigyrau NEET yn Sir Ddinbych wedi gostwng yn raddol o 3.1% i 1.7%.

Gyda Chyllid Ewropeaidd ar gyfer y prosiect yn dod i ben eleni, mae cydweithwyr Addysg yn symud ymlaen â chynlluniau ar gyfer prosiect 'Llwybrau' i barhau i fynd i'r afael ag anfantais economaidd gymdeithasol, i gefnogi plant a phobl ifanc diamddiffyn mewn ysgolion. Bydd Llwybrau yn ddatrysiad llai ond sylweddol gan ddefnyddio dysgu o'r dadansoddiad data a gwerthusiad dros dro annibynnol Wavehill i ganolbwyntio ac addasu'r meysydd hynny o brosiect TRAC sydd wedi cael yr effaith fwyaf. Y bwriad yw y bydd yn cael ei ariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Ni ellir rhoi digon o sylw i lwyddiant TRAC fel prosiect **cydweithredol** sy'n **integreiddio** gydag amcanion ac uchelgeisiau noddwyr a darparwyr i gynorthwyo'r holl bobl ifanc i barhau i fod wedi ymwneud ag addysg a chyflawni eu potensial. Mae **cynnwys** pobl ifanc i nodi llwybrau amgen sy'n fwy addas i ddysgu wedi bod yn allweddol, ac wedi arwain at **atal** amgylchiadau a allai arwain at galedi **hirdymor** ar gyfer yr unigolion hynny. Mae'n sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **Oedran**, a'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol**.

## **Prydau Ysgol**

Yn ystod gwyliau'r haf cefnogodd y cyngor barhad Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol 'Bwyd a Hwyl' (a elwir hefyd yn SHEP). Mae'n raglen addysg mewn ysgolion sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgareddau corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant yn ystod gwyliau'r haf. Mae Bwyd a Hwyl wedi datblygu rhaglen genedlaethol wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru wedi'i weinyddu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, fe wnaeth y cyngor drefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim dros wyliau'r haf i dalu £19.50 fesul plentyn bob wythnos i rieni a gwarcheidwaid i

ddiwallu costau prynu a pharatoi prydau ar gyfer prydau ysgol am ddim. Gweinyddodd Sir Ddinbych y gronfa ar ran Llywodraeth Cymru, er budd 4,275 o blant.

Yn olaf, mae'r cyngor a'r ysgolion wedi gweithio'n galed i roi paratoadau ar waith er mwyn cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i bawb mewn ysgolion cynradd, gyda'r cyfnod cychwynnol ar gyfer plant derbyn o fis Medi. Yn dilyn derbyn £859mil gan Lywodraeth Cymru, mae gwaith i gynyddu capasiti 13 o geginau ysgolion cynradd wedi'i gyflawni. Bydd y cynnig yn cynyddu ein cyfrif prydau dyddiol gan y gwasanaeth arlwy o 3500 i 7687. Mae darpariaeth y prosiect wedi bod yn her sylweddol ac o fewn terfynau amser tynn iawn. Ond, mae cefnogaeth gan gyflenwyr lleol, contractwyr a Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagorol. Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl ysgolion cynradd yn gallu darparu i flwyddyn 1 a 2 erbyn y Pasg 2023.

Bydd y gwaith yn y meysydd i gefnogi bwyta'n iach yn sicrhau buddion uniongyrchol i'r nodwedd a ddiogelir **Oedran**, a'r rheiny **dan anfantais economaidd-gymdeithasol**. Yn yr holl ymdrechion hyn rydym wedi **cydweithio** ac **integreiddio** yn dda gyda phartneriaid ar lefel genedlaethol a lleol, yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn **hirdymor** a fydd o fudd i les maetheg ein pobl ifanc ac **atal** newyn ac ymddygiad bwyta negyddol. Rydym hefyd yn ceisio **cynnwys** pobl ifanc yn nyluniad ein bwydlenni i dderbyn eu cyfranogiad i ddatblygu diet iach a maethlon.

## **Grant Gwisg Ysgol ac Offer**

Anogwyd rhieni a gwarcheidwaid i wneud cais am Grant Datblygu Disgyblion, sy'n cael ei weinyddu gan y cyngor ar ran Llywodraeth Cymru. Mae rhieni neu warcheidwaid sy'n derbyn budd-dal cymwys yn gallu derbyn grant o £225 os yw eu plant yn y dosbarth derbyn neu flwyddyn 1 i 11, neu £300 os yw eu plentyn yn dechrau ym Mlwyddyn 7. Gellir defnyddio'r grant ar gyfer costau gwisg ysgol; dillad chwaraeon; chwaraeon y tu allan i'r ysgol; gwisg ar gyfer gweithgareddau ehangach (fel sgowtiaid a geidiau); offer ar gyfer gweithgareddau i gefnogi'r cwricwlwm (fel dylunio a thechnoleg); offer ar gyfer teithiau y tu hwnt i oriau ysgol, gan gynnwys dysgu awyr agored; gweithgareddau Dug Caeredin; a chyfrifiaduron, gliniaduron a llechi clyfar. I gael rhagor o wybodaeth o ran pa gefnogaeth sydd ar gael, ewch i [dudalen we Cymorth Costau Byw](#)

Gan weithio mewn **cydweithrediad** gyda Llywodraeth Cymru, i **integreiddio** ein nod na fydd unrhyw blentyn yn cael eu gadael ar ôl yn eu dysgu, bydd y grant yn sicrhau bod y

rhai dan **anfantais economaidd gymdeithasol** yn derbyn cefnogaeth i gael mynediad cyfartal at gyfleoedd addysgol, gan **atal** amddifadedd a chefnogi datblygiad **hirdymor**. Byddai hefyd o fudd yng nghyswllt y nodwedd a ddiogelir **Oedran**.

## Cwricwlwm Cymru

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#) derbyniodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad adroddiad gan y Prif Reolwr Addysg a Swyddogion GwE ar weithrediad y Cwricwlwm i Gymru a'r gefnogaeth a roddir i ysgolion Sir Ddinbych. Mae'r cwricwlwm newydd yn wahanol iawn i'r hyn a wnaed yn flaenorol, gydag ysgolion yn cael eu hannog i lunio'r profiad dysgu o amgylch eu dysgwyr. Er nad yw'n rhagnodol, mae'n rhoi strwythur pendant er mwyn sicrhau bod y 16,500 o fyfyrwyr yn Sir Ddinbych yn tyfu i fod yn uchelgeisiol, galluog, mentrus, creadigol, iach, hyderus a gwybodus am faterion moesegol. Byddai'r cwricwlwm yn statudol ymhob ysgol gynradd yng Nghymru o fis Medi 2022 ymlaen ac ymhob ysgol uwchradd o fis Medi 2023 ymlaen.

Penderfynodd y Pwyllgor ofyn am adroddiad arall mewn deuddeg mis yn manylu ynghylch effeithiolrwydd cyflwyno'r Cwricwlwm yn ysgolion cynradd y sir, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd wrth ei gyflwyno, ac yn egluro'r camau a gymerwyd wrth baratoi ar gyfer darparu'r Cwricwlwm yn holl ysgolion uwchradd y sir o fis Medi 2023 ymlaen.

Mae cryn dipyn o waith **cyfranogi** ac **integreiddio** wedi'i wneud i baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd, mewn **cydweithrediad** gyda GwE, ein partneriaid gwella ysgolion, a Llywodraeth Cymru. Mae'n hynod bwysig bod y cwricwlwm newydd yn gweithio ar gyfer ysgolion a dysgwyr i gefnogi datblygiad a darpariaeth **hirdymor**, ac i **atal** amddifadedd addysgol. Byddai hefyd o fudd yng nghyswllt y nodwedd a ddiogelir **Oedran**.

## **Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy**

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Llywodraethu: Da

### **Fframwaith Perfformiad Iechyd Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur**

Gyda'r adroddiad hwn, mae 51% o'n mesurau Cynllun Corfforaethol yn feysydd i'w gwella, sy'n cyd-fynd â'n hadroddiad diwethaf. Mae dau o'n prosiectau corfforaethol yn cael eu nodi fel 'wedi'u peryglu' (Gofal Plant Dewi Sant, ac estyniad Ysgol y Castell), gyda 100% o brosiectau yn cael eu diweddarau'n rheolaidd gan reolwyr prosiect.

Mae prosiect Gofal Plant Dewi Sant yn wynebu problem gyda draeniau ar y safle sy'n golygu na all y prosiect symud ymlaen ar hyn o bryd. Mae'r prosiect yn dibynnu ar gwblhau cynllun rheoli risg llifogydd Ffordd Derwen, sydd yn y cam dyluniad manwl ac achos busnes llawn ar hyn o bryd, ac fe ragwelir na fydd y gwaith yn dechrau tan ddiwedd 2023 i ddechrau 2024. Mae'n rhaid cyflawni gwaith ar y cynllun hwn cyn y gellir cysylltu â phrosiect Dewi Sant. Bydd y terfynau amser yn destun trafod gyda Llywodraeth Cymru gan fod yr uchod yn effeithio ar y rhaglen gyllid.

Mae'r ail gynllun sydd wedi'i beryglu, estyniad Ysgol y Castell, wedi'i oedi ar hyn o bryd oherwydd diffyg cyllid. Mae ffrydiau cyllid eraill wedi'u hystyried ond wedi bod yn aflwyddiannus. Rydym yn diweddarau'r holl fudd-ddeiliaid.

Roedd 55% o'n Risgiau Corfforaethol yn anghyson â'n parodrwydd i dderbyn risg yn ein hadolygiad diweddaraf, a ddechreuodd ym mis Awst. Mae uwch reolwyr a'r Cabinet yn mynd i'r afael â'r rhain, ac yn cyfiawnhau eu cynnwys yn ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol fel y risgiau mwyaf difrifol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru), ac ni chafwyd unrhyw adroddiadau sicrwydd isel yn y cyfnod hwn gan archwilio mewnol.

Mae llinyn mesur ar amrywiant y gyllideb (h.y. yr hyn sydd gennym o'i gymharu â'n gwariant) wedi cynyddu o 1,109mil ym mis Mehefin 2022 i 2,661mil ym mis Medi 2022. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn parhau yn £7.135 miliwn.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor (fel cyfran o bob stori newyddion am y cyngor) wedi cynyddu ychydig i 11% rhwng mis Gorffennaf a mis Medi. Ffigwr mis Ebrill i fis Mehefin oedd 10%. Mae hyn yn cynrychioli 84 o straeon negyddol allan o gyfanswm o 734. Mae canran y cwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi cynyddu o 46% i 67%. Mae hyn yn cynrychioli 55 o gwynion wedi'u cadarnhau neu wedi'u cadarnhau'n rhannol.

Ym mis Medi 2022, roedd absenoldeb salwch yn 10 diwrnod, i lawr o 10.18 yn y cyfnod diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 7.54 diwrnod ym mis Medi 2021. Ym mis Medi 2022, roedd canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf yn 52%, i fyny o 45% yn y cyfnod diwethaf..

Erbyn diwedd Medi, roedd 35% o wariant y Cyngor gyda chyflenwyr lleol a 64% o gontractau (dros £25,000 ac yn llai na £1,000) yn ystod y cyfnod yn cynnwys manteision cymunedol. Cwblhawyd dau weithgaredd caffael cydweithredol, yn ystod y cyfnod, ac ni fethwyd unrhyw un. Mae 17 o gaffaeliadau cydweithredol posibl ar y gorwel a bydd y rhain yn datblygu dros y misoedd i ddod.

Mae ein llinyn mesur olaf yn ystyried ymdrechion y Cyngor i gefnogi preswylwyr mewn i waith drwy leoliadau rydym ni'n eu cynnig yn y Cyngor. Yn ystod mis Gorffennaf i fis Medi, fe wnaethom ni gefnogi 8 o leoliadau ychwanegol llwyddiannus, gan ddod â'r cyfanswm i 163.

## **Hunanasesiad lechyd Corfforaethol: Meysydd Llywodraethu**

Mae ein saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunan-asesiad wedi'u hamlinellu isod ac yn ceisio rhoi darlun o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio, sut rydym yn gwybod hynny (gan gyfeirio at dystiolaeth lle bo modd), a sut gallwn wella.

## **Cynllunio Corfforaethol**

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

## **Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd erbyn mis Hydref 2022.**

Cynhaliwyd gweithdy gyda'r Cyngor Sir ar 12 Gorffennaf lle y rhoddwyd adborth adeiladol am y naw amcan drafft a ddatblygwyd ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027. Wedi hynny lansiwyd rownd derfynol ymgysylltiad cyhoeddus ym mis Awst i 'wirio' gyda'n budd-ddeiliaid ein bod yn canolbwyntio ar y pethau cywir. Cafwyd adborth cadarnhaol, gydag oddeutu 220 o ymatebwyr yn cyfrannu yn y cam hwn. Bydd y Cynllun Corfforaethol terfynol ar gyfer 2022 i 2027 yn cael ei gyflwyno i dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor Sir ar 11 Hydref.

## **Uwch Dîm Arweinyddiaeth**

Penodwyd dau Gyfarwyddwr Corfforaethol newydd ym mis Gorffennaf ([gweler isod](#)) yn mynd i'r afael â'r materion capasiti ar lefel Tîm Gweithredol Corfforaethol. Derbyniodd y ddau y swydd ym mis Medi, a gellir dechrau ar y gwaith i adolygu haen Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd trafodaethau cychwynol gyda rheolwyr a staff yn dechrau yn yr hydref, gan geisio cyflwyno cynigion i'w hystyried gan aelodau ym mis Rhagfyr. Yn y cyfamser, mae trefniadau dros dro yn eu lle, gyda rheolwyr canol yn dirprwyo ar ran rolau penaethiaid gwasanaeth.

## **Penodiadau i Bwyllgorau**

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#), parhaodd gwaith y Cyngor Sir i benodi amryw o bwyllgorau a swyddi, gan gynnwys penodi aelodau etholedig i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i benodi cadeirydd y pwyllgor; penodi aelod etholedig i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru; penodi cyfarwyddwr Bwrdd Hamdden Sir Ddinbych Cyf; a phenodi cynrychiolydd Cyngor Tref, Dinas a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau. Cytunodd y cyngor ar ddyddiadau pwyllgor ar gyfer 2023. Bydd arolwg aelodau yn cael ei gynnal i benderfynu a yw cynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd yn amharu ar aelodau sy'n gweithio lle bo cyflogwyr yn anfodlon rhyddhau staff i fynychu cyfarfodydd.

## **Cytuno a gweithredu dull cyngor cyfan ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio**

Gyda chyfyngiadau ar weithio yn y swyddfa wedi'u llacio yn awr, mae'r Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio yn parhau i asesu ymddygiad staff o ran patrymau gweithio yn y swyddfa ac o gartref; mae hyn yn cynnwys arolwg staff a lansiwyd yn ystod yr haf. Byddwn hefyd yn monitro arferion staff yn y misoedd oerach i weld a oes newid. Bydd ein

dadansoddiad yn hysbysu ein strategaeth a pholisïau asedau hirdymor. Mae gwaith ar y gweill hefyd i adolygu gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn ein hadeiladau, gan gynnwys mewngofnodi ac allgofnodi, ac argaeledd wardeiniaid tân a swyddogion cymorth cyntaf.

Trafodwyd adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru ar asedau a rheoli'r gweithlu yn dilyn y pandemig gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn [ei gyfarfod ym mis Gorffennaf](#). Roedd pedwar argymhelliad yn yr adroddiad:

- Ystyried dysgu a meysydd i'w gwella ar ôl y pandemig i hysbysu'r defnydd o asedau a'r gweithlu yn y dyfodol, lle bo'r pandemig wedi tynnu sylw at gyfleoedd o'r fath.
- Egluro gweledigaeth y cyngor ar gyfer siâp a maint ei asedau adeiladau a'r gweithlu yn fyr dymor, tymor canolig ac yn hirdymor.
- Datblygu strategaethau asedau a'r gweithlu a chynlluniau cyflawni sy'n ategu at yr hyn a ddysgwyd o brofiad y cyngor yn ystod pandemig Covid-19 a darparu gweledigaeth y cyngor yn y meysydd hyn.
- Nodi costau cyflawni'r cynlluniau hyn a'u hymgorffori yn y cynllun ariannol tymor canolig.

Ystyriwyd ymateb rheolwyr y Cyngor i'r argymhellion hyn ochr yn ochr â'r adroddiad, gan roi sicrwydd bod y gwaith eisoes wedi'i wneud, neu ar y gweill i fynd i'r afael â nhw, yn bennaf drwy'r prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio.

### **Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

Un gofyniad sy'n weddill o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yw bod trefniadau yn eu lle ar gyfer 'Asesiad Panel' cyfoedion o'i swyddogaethau, i'w gyflawni unwaith o fewn y tymor etholiadol. Rydym yn eglur iawn bod angen trafod y trefniadau hyn gyda'r aelodau etholedig cyn gynted â phosibl, er mwyn iddynt benderfynu pryd y dylid cynnal yr asesiad yn ystod eu tymor. Ond, rydym yn aros i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddarparu manylion am eu cynnig Asesu Cyfoedion cenedlaethol, gan gynnwys eu costau. Rydym wedi derbyn sicrwydd y byddwn yn derbyn hyn i'w drafod gyda'r aelodau yn y gwanwyn, gyda'r asesiadau panel cyntaf o awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn ystod yr hydref 2023 ar y cynharaf.

## **Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Ymrwymiad i wasanaethau cwsmer**

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r gweithgareddau gwella wedi'u gohirio nes y bydd y strwythur uwch reolwyr newydd yn hysbys. Y gobaith yw y gellir cynnal y rhaglen yn y gwanwyn, ond bydd yn cael ei drafod gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn yr hydref i weld beth sy'n bosibl yng nghyd-destun adolygiad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Cynigir y bydd yr heriau yn gweithio fel y gwnaed yn flaenorol gydag amserlen fyrrach a llai o waith papur; ond, mae'n rhaid ystyried sut yr adolygir data lefel gwasanaeth, gan fod hyn yn rhan bwysig o'n Fframwaith Rheoli Perfformiad. Yn dilyn adolygiad diweddar gan Archwilio Cymru o Reoli Perfformiad ([gweler isod](#)), bydd cynigion hefyd yn cynnwys argymhelliad ar gyfer cyhoeddi data perfformiad lefel gwasanaeth.

## **Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

### **Ei Mawrhydi Y Frenhines Elizabeth II**

Yn dilyn y newyddion am farwolaeth y Diweddar Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II, cyflwynodd Cadeirydd y Cyngor Sir, y Cynghorydd Arwel Roberts, [ddatganiad o gydymdeimlad](#) ar ran y cyngor, a gosod torch o flodau fel arwydd o barch mewn seremoni fer yn Neuadd y Sir, Rhuthun, a Thŷ Russell, y Rhyl. Gwnaed darpariaeth hefyd er mwyn i'r cyhoedd adael blodau a llofnodi llyfrau cydymdeimlo mewn lleoliadau ar draws y sir (gan gynnwys fersiwn electronig ar ein gwefan). Gohiriwyd cyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor Sir a'i bwyllgorau nes y daeth y cyfnod swyddogol o alaru cyhoeddus i ben ar 26 Medi, ac fe wnaed trefniadau i nodi gŵyl y banc cyhoeddus ar 19 Medi.

### **Brenin Charles III**

Yn dilyn cyhoeddiad Cyngor yr Esgyniad ar gyfer Brenin Charles III ar 9 Medi, cynhaliwyd seremonïau lleol ar draws y Deyrnas Unedig. Darllenodd Cadeirydd y Cyngor Sir, y Cynghorydd Arwel Roberts, y cyhoeddiad yn Gymraeg a Saesneg yn ystod seremoni a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r rhai a fynychodd y seremoni ac i'r rhai a sicrhodd bod y trefniadau'n cael eu cyflawni mewn modd urddasol a pharchus.



## Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhaglen gyllid refeniw yn bennaf a dyraniad unigol Sir Ddinbych yw £25,647,958, gyda blaenoriaethau buddsoddi yn canolbwyntio ar Gymuned a Lle; Cefnogi Busnesau Lleol; a Phobl a Sgiliau. Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#), derbyniodd y Cabinet y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau lleol ar gyfer cynllunio a darparu'r Strategaeth Fuddsoddi Ranbarthol. Rhoddwyd cymeradwyaeth i ddatblygu Rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin ymhellach; gan ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Sir Ddinbych i'w cynnwys yn y Strategaeth Fuddsoddi Ranbarthol ac i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol ar gyfer cyflwyno'r Strategaeth ac i arwain ar ddarpariaeth y rhaglen wedi hynny.

## Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

## Adroddiadau Diweddariadau Cyllid

Yn ei [gyfarfodydd ym mis Mehefin](#) a mis [Medi](#), derbyniodd y Cabinet y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol y cyngor. Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 oedd £233.696 miliwn (i fyny o £216.818 miliwn yn 2021/22). Ym mis Medi, y sefyllfa o ran cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yw y rhagwelir gorwariant o £1.953m (i fyny o £1.936m yn y mis blaenorol). Roedd £0.754m wedi'i nodi drwy arbedion gwasanaeth a chynnydd mewn ffioedd a phrisiau (ni ofynnwyd am arbedion gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion). Ar ddiwedd mis Awst, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £239.683 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.78%. Roedd y balansau buddsoddi yn £23.7 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 1.5%.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio gostyngiad o £570,000 mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n £567,000 yn fwy na'r £4,000 ar adeg cymeradwyo'r gyllideb. Mae'r symudiad yn ymwneud â gostyngiad yn incwm rhenti amcangyfrifedig. Felly rhagwelir y bydd balansau'r CRT yn £1.486 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Cyllideb Gyfalaf y CRT o £29.9 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£17 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£13 miliwn).

Mae'r adroddiadau hefyd yn rhoi crynodeb o gynllun cyfalaf y cyngor. Mae'r Cynllun Cyfalaf cymeradwy yn £66.1 miliwn gyda'r gwariant hyd yma'n £8.2 miliwn. Cynyddwyd cronfa wrth gefn y Cynllun Cyfalaf o £1.676 miliwn i £2.176 miliwn (mwy na'r £0.500 miliwn y cytunwyd arno fis Chwefror) yn sgil cario ymlaen elfen heb ei neilltuo'r grant cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru fis Mawrth. Ar ôl gwneud dyraniad i'r Prosiect Gwastraff, bydd y gronfa wrth gefn o £1 filiwn yn helpu i liniaru risgiau i'r rhaglen gyffredinol yn sgil effaith chwyddiant ar gostau cyfalaf.

Maes penodol o bryder oedd sefyllfa'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Addysg a Phlant, lle roedd wedi gwaethygu fis ar ôl mis gyda rhagolygon o orwariant o £2.457m yn awr. Roedd mwyafrif y pwysau (£1.5m) yn ymwneud â lleoliadau preswyl a maethu annibynnol newydd. Mae'r anawsterau o ran rhagweld gwariant ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw wedi'i nodi'n drylwyr yn flaenorol. Mae'r pwysau ar gyllideb lleoliadau y tu allan i'r sir wedi cynyddu fis yma o £519,000 i £611,000 gyda gostyngiad yn yr incwm disgwylidig yn sgil gostyngiad yn nifer y disgyblion o awdurdodau lleol eraill. Mae'r gorwariant a ragwelir yn tybio y byddwn yn derbyn £0.880 miliwn gan Lywodraeth Cymru eleni, ond nid yw £0.300 miliwn o'r swm hwn wedi'i gadarnhau eto. Bydd trafodaethau pellach yn yr hydref o ran sut i ddelio â'r pwysau hyn yn y dyfodol.

## **Datganiad Cyfrifon**

Mae dyletswydd statudol ar y cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r safonau cyfrifo a gymeradwyir. Mae'n rhaid i'r cyfrifon sydd wedi'u harchwilio gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#) ar ran y Cyngor Sir. Mae'r cyfrifon drafft wedi'u cadarnhau'n awr a'u llofnodi gan Bennaeth Cyllid, ac maent ar gael i'w harchwilio a'u harolygu gan y cyhoedd yn awr fel bo'r gofyn. Fel sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn nodi, oherwydd effaith parhaus Covid-19, y byddai terfynau amser statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon Drafft a chyfrifon wedi'u Harchwilio yn cael eu hymestyn. Fe wnaeth y cyngor benderfyniad cynnar i gyflwyno hysbysiad i nodi na fyddem yn anelu at y terfyn amser cynnar statudol o 31 Mai ar gyfer y Datganiad Cyfrifon Drafft; a 31 Gorffennaf ar gyfer y Datganiad Cyfrifon wedi'u Harchwilio. Ond, roedd y datganiad yn cadarnhau y byddem yn diwallu'r terfynau amser diwygiedig o 31 Awst a 30 Tachwedd. Cymerwyd y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad gydag Archwilio Cymru gan ddefnyddio'r asesiad o'u gallu i gwblhau'r gwaith archwilio gofynnol.

## Ardystio Grantiau a Ffurflenni Grant

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#) bu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried adroddiad Archwilio Cymru ar ardystiad grantiau a ffurflenni grant gan y cyngor yn ystod 2020 a 2021. Mae Cyllid Grant yn allweddol i ariannu gweithgarwch awdurdodau lleol mewn nifer o feysydd, ac mae'r adroddiad hwn yn gymorth i roi sicrwydd bod trefniadau digonol yn eu lle o fewn y cyngor i weinyddu'r broses grant. Roedd yr adroddiad yn nodi fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ceisiadau grant 2020/21. Mae nifer y grantiau sydd yn cael eu harchwilio'n benodol gan Archwilio Cymru wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond, mae'r saith sy'n weddill yn hynod gymhleth ac yn cynnwys sawl trafodyn a gwerth amrywiol. Mae'n galonogol gweld bod cyfanswm yr addasiadau i hawliadau a ffurflenni'r Awdurdod yn isel iawn. Dylid nodi hefyd mai dim ond un o'r grantiau oedd angen cymwysterau.

## Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#), yn ogystal mae'n darparu manylion ar yr hinsawdd economaidd yn ystod y cyfnod ac yn dangos sut mae'r cyngor wedi crynhoi gyda Dangosyddion Darbodus. Pob blwyddyn mae oddeutu £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrifon banc y Cyngor. Mae'r benthyciad sydd gan y Cyngor heb ei dalu ar ddiwedd Mawrth yn £234.7 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.77%. Mae ganddo hefyd £28.7 miliwn mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 0.47%.

Atgoffwyd yr aelodau bod tair blaenoriaeth i'w hystyried wrth fuddsoddi arian:

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch);
- sicrhau bod yr arian yn dod yn ôl pan fydd ei angen (hylifedd);
- sicrhau ein bod yn cael cyfradd elw dda (arenillion).

## Ymholiadau Archwilio

Mae gan Archwilio Cymru, fel archwilwyr allanol a benodwyd gan y cyngor, ddyletswydd i gael tystiolaeth o sut mae rheolwyr a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer atal a datgelu twyll. Roedd adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio [ym mis Gorffennaf](#) yn nodi Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y cyngor i'r ymholiadau hynny, yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Prosesau rheoli sydd ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
- Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
- Prosesau i gael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- A oes unrhyw ymglyfreithiad posibl neu hawliadau a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.
- Prosesau i adnabod, awdurdodi, cymeradwyo, cyfrif am a datgelu trafodion partïon cysylltiedig a pherthnasoedd.

Mae'r ymateb yn rhoi trosolwg da o nifer o faterion y mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i ystyried, ac yn rhoi sicrwydd bod prosesau cadarn yn eu lle. Yn allweddol, mae pob twyll sy'n hysbys neu yr amheuir yr hysbyswyd Archwilio Mewnol amdano wedi'i harchwilio, gyda chofnod ohono, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn chwarterol fel rhan o broses ddiweddarau Archwilio Mewnol. Er y cynhaliwyd archwiliadau unigol gan Archwilio Mewnol, ni nodwyd unrhyw dwyll ar lefel faterol. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw achosion lle bu diffyg cydymffurfiaeth ag unrhyw gyfreithiau neu reoliadau perthnasol chwaith.

## **Adroddiad Blynyddol Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio**

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ddefnydd y cyngor o'i bwerau gwylidwriaeth o dan RIPA (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000) yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#). Mae lefel gweithgarwch RIPA, sy'n ymwneud â 'chuddwylio' yn hytrach na gwylidwriaeth 'agored', wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf nes bod ychydig o guddwylio neu ddim o gwbl bellach yn digwydd. Bydd y cyngor yn defnyddio ei bwerau RIPA pan fetho popeth arall h.y. pan fo pob dull arall i gasglu tystiolaeth wedi'i ystyried a'i archwilio.

Os bydd cais RIPA yn cael ei gyflwyno, bydd angen goresgyn rhwystrau cyfreithiol cyn y gellir ymgymryd â'r wylidwriaeth sy'n cynnwys cwblhau ffurflen gais manwl gan yr ymgeisydd, cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb gydag un o Swyddogion Awdurdodi'r cyngor (aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol) a chael cymeradwyaeth ffurfiol gan Lys yr Ynadon. Beth bynnag yw'r broses, mae'r cyngor wedi gweld lleihad yn y gweithgaredd hwn oherwydd bod ganddo ddulliau tryloyw eraill mewn byd lle mae cyrff cyhoeddus yn rhannu mwy o ddata nag erioed fel ffordd o fynd i'r afael ag achosion o dwyll a throseddau.

Y ddau brif faes y mae'r Cyngor yn fwy tebygol o fod angen derbyn awdurdodiad RIPA yw gwerthu dan oed a thipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r cyngor ystyried dulliau llai ymwithiol o atal neu fynd i'r afael â gweithgareddau o'r fath fel gosod arwyddion neu weithio'n dryloyw gyda thafarnwyr a siopau trwyddedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau ar werthu alcohol.

Ers cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor ddiwethaf, ni chynhaliwyd yr un gweithgaredd cuddwyllo, ac mae hyn yn duedd sydd i'w gweld ar draws bob awdurdod lleol. Mae'r pandemig Covid-19 hefyd wedi cael effaith ar unrhyw allu neu angen i gynnal gweithgareddau o'r fath.

## **Rheoli Perfformiad**

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

## **Gweithredu proses flynyddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar berfformiad y Cyngor.**

Mae tîm y prosiect wedi ystyried y gwersi a ddysgwyd o flwyddyn gyntaf yr Arolwg Budd-ddeiliaid blynyddol (2021) a diwygio'r arolwg i ganolbwyntio ar y cwestiynau statudol y mae angen i ni eu gofyn o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn unig, sy'n ymwneud â pherfformiad ein hamcanion corfforaethol a llywodraethu. Rhannwyd yr arolwg a'r ymagwedd gyda'r Tîm Arwain Strategol a Briff y Cabinet ym mis Medi, ac yn cael ei lansio ym mis Tachwedd. Bydd yr arolwg yn cael ei hyrwyddo drwy ymgyrch gyfathrebu wedi'i dargedu ac yn parhau tan ddiwedd Ionawr, gyda'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi er mwyn eu cynnwys yn ein Hunanasesiad ar ddiwedd y flwyddyn.

## **Darparu Gwelliant Cynaliadwy**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi [adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor](#), gan geisio sicrhwydd eu bod yn gadarn ac yn debygol o gefnogi gwelliant cynaliadwy a pharhaus. Daeth i'r casgliad bod Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer mesur ac adrodd perfformiad yn effeithiol, gyda rhai cyfleoedd i wella'r defnydd o'r feddalwedd rheoli perfformiad. Gallai'r Cyngor hefyd ystyried gwella adroddiadau perfformiad meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth, sut caiff gwybodaeth ariannol a gwybodaeth mewn perthynas â pherfformiad eu hystyried ar y

cyd, a bod sesiynau 1 i 1 staff yn cael eu cofnodi mewn modd cywir a phriodol. Yn dilyn gohirio cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi, bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn [ei gyfarfod ym mis Hydref](#), ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr.

## **Adeiladau'r Frenhines**

Yn dilyn ein hadroddiad blaenorol ar gynnydd Adeiladau'r Frenhines, mae'r contractwyr, Wynne Construction, wedi dechrau ar waith safle, sy'n cynnwys toddiant concrid ar gyfer y sylfeini. Fel rhan o waith ymgysylltu â'r gymuned gan Wynne, cynhaliodd y cwmni ddau ddigwyddiad ar gyfer y gymuned ym Mhafiliwn y Rhyl, gan gynnwys digwyddiad 'cwrdd â'r prynwr' (yn agored i isgontractwyr sydd â diddordeb mewn ymuno â'r gadwyn gyflenwi, ynghyd â sefydliadau menter gymdeithasol a thrydydd sector sy'n dymuno darparu nwyddau a gwasanaethau yn y cam adeiladu); a ffair swyddi i'r cyhoedd (yn dangos beth fydd yn rhan o'r cynllun, ynghyd â thynnu sylw at y cyfleoedd gyrfaol lleol a fydd yn rhan o'r cynllun). Mae'r cyngor yn awr yn dechrau'r broses i sicrhau gweithredwr i reoli'r datblygiad, sy'n cynnwys 18 uned unigol (gan gynnwys 5 uned bwyd poeth), bar deuochrog a gofod digwyddiadau mewnol hyblyg, ac ardal allanol i gynnal digwyddiadau, marchnadoedd neu seddi. Anogir masnachwyr sydd â diddordeb mewn masnachu ym Marchnad y Frenhines i gofrestru eu diddordeb am le drwy [ein gwefan](#).

Mae'r cyllid ar gyfer y datblygiad wedi'i ddarparu gan y cyngor, rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae Trawsnewid Trefi yn cefnogi gwaith gyda gwerth o bron i £25m yng nghanol tref y Rhyl, i wella ac addasu eiddo masnachol a phreswyl sy'n cael eu tanddefnyddio. Aeth Gweinidog Gogledd Cymru, Lesley Griffiths, i weld rhai o'r prosiectau yng nghanol y dref ym mis Gorffennaf, a oedd yn cynnwys Marchnad y Frenhines. Fe welodd y Gweinidog rhai o'r ardaloedd a gynlluniwyd i'w datblygu yn y Stryd Fawr, gan gynnwys adnewyddu tri eiddo i ddarparu gofodau busnes bach ar y llawr gwaelod, ac unedau tai canolradd ar y lloriau uwch. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect adfywio'r Rhyl ewch i [wefan y cyngor](#) i gael rhagor o wybodaeth.

## **Mynd i'r afael â chapasiti staff yn y Tîm Archwilio Mewnol.**

O'r 23 Medi, roedd gwaith i fynd i'r afael â chapasiti staff ar y trywydd cywir, gan fod rolau Prif Archwilydd Mewnol, y Prif Archwilydd a dwy rôl Uwch Archwilydd wedi'u llenwi, a dim

ond un swydd wag oedd gan y tîm ar gyfer archwilydd. Y bwriad oedd trawsnewid y swydd wag o swydd archwilydd i swydd uwch archwilydd, ac mae wedi'i gyflwyno i fwrdd y gyllideb. Ond, ers mis Medi mae un o'r Uwch Archwilwyr wedi'u penodi i rôl allanol, ac felly bydd dwy swydd ar y rhestr o swyddi gwag erbyn diwedd y flwyddyn. O ganlyniad i hynny, mae Archwilio Mewnol yn dymuno hysbysebu'r ddwy swydd yng nghanol mis Tachwedd, ac yn ystyried gwahanol ffyrdd o hysbysebu a denu pobl i wneud cais.

## **Gwella'r adborth a dderbynnir gan gleientiaid ar ôl archwiliadau mewnol.**

I wella nifer yr holiaduron ar ôl archwiliad sy'n cael eu cwblhau, mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn ystyried anfon holiaduron allan bob chwe mis. Yna ar ôl mis, bydd nodyn atgoffa cwrtais yn cael ei anfon i annog mwy o swyddogion i lenwi'r holiadur. Yn anffodus, oherwydd prinder staff bydd yr holiaduron yn dod allan ddiwedd mis Hydref, a'r nodyn atgoffa ddiwedd mis Rhagfyr. Ar hyn o bryd rydym yn teimlo bod y cwestiynau'n berthnasol ac nid ydym am eu hadolygu nes y flwyddyn ariannol nesaf.

## **Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

### **Hunanasesiad o Berfformiad**

Cymeradwywyd hunanasesiad y cyngor o'i berfformiad yn erbyn ei swyddogaethau, y cyntaf o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan y Cyngor Sir ar 19 Gorffennaf, a'u cyhoeddi wedi hynny ar ein [tudalen we ar gyfer perfformiad](#).

Wrth edrych tua'r dyfodol ein bwriad yw cyhoeddi adroddiad perfformiad chwarterol (sy'n ffurfio ein Hunanasesiad blynyddol) ar y dudalen we hon, yn ogystal â chyflwyno pob adroddiad arall o fis Gorffennaf i fis Medi a mis Ionawr i fis Mawrth) yn gyhoeddus i'r Cabinet a Phwyllgor Craffu Perfformiad. Yr adroddiad diweddar o fis Gorffennaf i fis Medi hwn yw'r ail o'n hunanasesiad parhaus ar gyfer 2022 i 2023. Gellir gweld yr adroddiad blaenorol o fis Ebrill i fis Mehefin drwy'r ddolen uchod.

### **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#), derbyniodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad Adroddiad Blynyddol drafft gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn adlewyrchiad gonest o berfformiad Gwasanaethau Plant ac Oedolion yng nghyd-destun adfer ar ôl y pandemig ac effeithiau hirdymor sy'n parhau i effeithio ar ein gallu i ddarparu

gwasanaethau gofal cymdeithasol. Er gwaethaf hynny nodwyd nifer o lwyddiannau yn yr adroddiad. Ar y cyfan mae ein perfformiad yn gymharol â'r flwyddyn flaenorol, gyda rhywfaint o welliant mewn rhai meysydd fel nifer y plant sydd wedi dychwelyd adref o ofal, a nifer yr asesiadau ar gyfer plant wedi'u cwblhau o fewn y terfynau amser statudol. Mae hyn yn ystod cyfnod lle rydym yn gweld materion recriwtio a chadw staff sylweddol a mwy o gymhlethdod o ran anghenion y rhai sy'n derbyn y gwasanaethau statudol hynny. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar gynnal capasiti ac adnoddau i ddarparu ein gwasanaethau statudol, sydd wedi cyfyngu ein capasiti i ddatblygu a chyflawni cynnydd cymaint ag yr hoffem. Ond, rydym wedi ategu at yr arferion arloesol a chreadigol a ddatblygwyd yn ystod pandemig Covid-19.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cyflawni cynnydd da i gefnogi a gwella gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc, ynghyd â datblygu Siarter Gofalwyr gyda'n Grŵp Strategaeth Gofalwyr. Mae mwy a mwy o waith yn cael ei wneud i nodi gofalwyr anffurfiol, a bydd yn cael ei ddatblygu drwy Gynllun Gweithredu Cyflwr Gofal Sir Ddinbych. Mae gwaith i gwblhau canolfan Bwthyn y Ddôl wedi'i oedi, ond mae'r tîm amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu ac maent yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar ffiniau gofal. Mae gwasanaethau cymdeithasol plant a phobl ifanc yn datblygu eu Timau Ffiniau Gofal i ddarparu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal i'r unigolion a'r teuluoedd hynny a allai fod angen cefnogaeth gan wasanaethau statudol fel arall.

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd gwaith yn cael ei gyflawni i ymgorffori gwaith Ymgynghorwyr Byw'n Annibynnol i gefnogi unigolion a theuluoedd i gael gofal a chefnogaeth drwy daliad uniongyrchol, a fydd yn cynyddu dewis a rheolaeth dros eu hanghenion gofal a chefnogaeth eu hunain. Byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad meicro fentrau drwy ein partneriaeth gyda Chatalyddion Cymunedol, gan wella cyfleoedd ar gyfer mentrau gofal a chefnogaeth bach ar draws y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Byddwn hefyd yn paratoi i weithredu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

Mae Adroddiad Blynyddol terfynol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gael ar [ein gwefan](#).

### **Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion**

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#), derbyniodd Pwyllgor Craffu Partneriaethau yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych. Roedd yr adroddiad yn manylu ar



weithgareddau'r Tîm Diogelu, gan ganolbwyntio ar gynnal cysondeb ansawdd y gwaith diogelu, gan gynnwys perfformiad o ran dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru. Roedd perfformiad Sir Ddinbych o ran nifer yr ymholiadau a ddatryswyd o fewn 7 diwrnod yn parhau i fod yn uchel yn 99.7%. Nodwyd hefyd bod y cyngor yn cydymffurfio'n llawn â gweithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cryn dipyn o ddata, gan gynnwys nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd dros y 3 blynedd diwethaf. Nodwyd bod nifer yr atgyfeiriadau wedi gostwng ers y pandemig, ond nid oedd yn achosi pryder i swyddogion gan fod patrymau tebyg wedi bod mewn awdurdodau cyfagos. Mae Grŵp Cyflawni Conwy a Sir Ddinbych yn bodoli, sy'n gyfarfod misol ar gyfer asiantaethau partner i ystyried data a thueddiadau diogelu, gan gymharu yn erbyn ystadegau Arolygiaeth Gofal Cymru lle bo'n briodol. Mae'r Grŵp Cyflawni hefyd yn bwydo drwodd i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

### **Adroddiad Blynyddol Craffu**

Yn ei [gyfarfod ar 19 Gorffennaf](#), derbyniodd y Cyngor Sir Adroddiad Blynyddol Craffu, a oedd yn tynnu sylw at rôl bwysig Craffu i gefnogi darpariaeth a monitro Cynllun Corfforaethol y cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn crynhoi casgliadau'r adolygiad a gynhaliwyd yn dilyn galw penderfyniad y Cabinet i mewn yn ystod y flwyddyn; y gwaith a wnaed gan grwpiau tasg a gorffen Craffu; a manylion y mathau o waith ychwanegol a wnaed gan aelodau Craffu. Nodwyd bod annog preswylwyr i ryngweithio gyda Chraffu yn parhau i fod yn her. Elfen gadarnhaol oedd cyfranogiad myfyrwyr o Ysgol Dinas Brân mewn trafodaeth ar waredu'r defnydd o blastigion defnydd untro yn y gwasanaeth prydau ysgol, ac wedi hynny rhannodd y myfyrwyr eu pryderon a'u harsylwadau gyda'r Cabinet. Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog Craffu, Rhian Evans, am ei chefnogaeth a'i gwaith caled drwy gydol y flwyddyn.

### **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#), derbyniodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau y wybodaeth ddiweddaraf ar berfformiad chwarterol a blynyddol y Bwrdd Uchelgais Economaidd a oedd yn cynnwys llywodraethu a chynnydd prosiectau ym Margen Dwf Gogledd Cymru. Cytunwyd ar Fargen Dwf Gogledd Cymru ar sail portffolio o 5 rhaglen; Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, Rhaglen Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Ynni Carbon Isel, Tir ac Eiddo a Chysylltedd Digidol. Rhoddodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd sicrwydd i aelodau bod swyddogion Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd.

Gobeithid y byddai modd trefnu sesiwn friffio am y Fargen Dwf a'i rhaglenni er mwyn darparu gwybodaeth i'r holl gynghorwyr.

## **Hafan Deg**

Yn ei [gyfarfod ym mis Medi](#), ystyriodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad effeithiolrwydd trosglwyddo cyfleuster Hafan Deg yn y Rhyl i ddarparwr allanol, KL Care; gan gynnwys cynnydd y darparwr i dyfu ac ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y ganolfan, a'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig. Mae'r adroddiad yn darparu gwerthusiad gonest o'r anawsterau y mae'r gwasanaethau yn Hafan Deg wedi'u hwynebu oherwydd effeithiau parhaus y pandemig. Yn ystod ymweliad monitro contract yn ddiweddar, nodwyd nifer o feysydd i'w gwella. Ond, mae'r adroddiad yn cynnig sicrwydd bod y ganolfan yn parhau i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar unigolyn i'r holl rai sy'n mynychu. Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu gyda KL Care er mwyn cefnogi'r ganolfan i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella, a chymryd y camau cywiro a datblygu sydd eu hangen i alluogi'r gwasanaeth i fodloni gofynion y contract yn llawn. Roedd gwaith monitro contract yn gadarn ac yn rheolaidd wedi'i amharu yn ystod y pandemig ac mae'n rhaid ei wneud yn awr er mwyn sicrhau bod cynlluniau ar gyfer y ganolfan yn cael eu cyflawni, a bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyrraedd.

## **Rheoli Risg**

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### **Cofrestr Risg Gorfforaethol**

Dechreuodd y cyfarfodydd gyda pherchnogion risg ym mis Awst i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a chwmpasu unrhyw risgiau newydd sydd heb eu cynnwys. Rhagwelir bod nifer o'r risgiau wedi gwaethygu, neu yn mynd i waethygu yn y dyfodol agos, yn sgil dirywiad yr economi a'r pwysau parhaus o ran recriwtio a chadw staff a diogelu. Gan eithrio dau risg ar y sail y cynigir eu tynnu - mae gennym gyfanswm o 20 risg ac 11 sy'n anghyson â'n parodrwydd i dderbyn risg (55%).

Mewn perthynas â'n risg o ran diogelu neu wall ymarfer difrifol, mae sgôr y risg wedi ei gynyddu ar sail ein hasesiad fod y tebygolrwydd o hyn yn digwydd yn uwch ar hyn o bryd nag yr oedd yn flaenorol. Bydd cynyddu sgôr y risg yn galluogi blaenoriaethu'r risg yn well,

sy'n teimlo'n briodol ac yn ofynnol ar hyn o bryd. Bydd ein Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet yn monitro'r risg ac effeithiolrwydd ein rheolaeth ohono.

## **Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

### **Perchnogion Risg**

Yn dilyn etholiad y cynghorwyr newydd ym mis Mai, mae'r perchnogion risg wedi'u diweddarau ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Disgwylir y bydd gwaith ail-strwythuro'r Uwch Dîm Arwain yn dod i ben erbyn mis Mawrth 2023, a fydd hefyd yn arwain at newidiadau pellach i berchnogion risg dros y misoedd nesaf.

### **Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg**

Cafodd [datganiad parodrwydd i dderbyn risg](#) y cyngor ei adolygu ddiwethaf ym Medi 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, mae paratodau wedi bod ar y gweill i weithio gydag uwch arweinwyr a'r Cabinet i ystyried y datganiad eto. Teimlir bod yr adolygiad hwn yn amserol, o ystyried fod gennym gyngor newydd a chynllun corfforaethol newydd i weithio tuag ato. Mae'n rhaid i'r datganiad adlewyrchu ein parodrwydd nawr mewn byd ôl pandemig, ôl Brexit, ble mae costau cynyddol a rhagolygon economaidd ansicr yn cyflwyno heriau i ni wrth ddarparu gwasanaethau a phrosiectau, ac yn bygwth canlyniadau a rennir o ran annibyniaeth a chadernid personol a chymunedol.

### **Polisi Risg Gwybodaeth**

Mae gwaith wedi dechrau ar Bolisi Risg Gwybodaeth drafft ar gyfer y cyngor, a fydd yn cael ei atgyfnerthu gan ein [Strategaeth Rheoli Risg](#) presennol. Bydd y fersiwn drafft yn cael ei ystyried gan ein Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth mewnol dros y misoedd nesaf, cyn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau. Bydd y gwaith yn cefnogi cynhyrchu datganiad blynyddol ar Lywodraethu Gwybodaeth i'r cyngor.

### **Cynllunio'r Gweithlu**

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

## **Hyfforddiant, Datblygiad ac Iechyd Meddwl Staff**

Cynhaliwyd arolwg o les y staff yn ystod yr haf, ac fe gafwyd ymateb gan 595 aelod o staff. Cadarnhaodd 503 aelod o staff (84%) eu bod yn gweithio deuddydd yr wythnos neu lai o'r swyddfa, cadarnhaodd 92 (16%) eu bod yn gweithio tridiau neu fwy yr wythnos o'r swyddfa, a 54 (9%) yn cadarnhau eu bod yn gweithio'n llawn amser o'r swyddfa. Nododd y staff sawl mantais o weithio o gartref, fel mwy o effeithlonrwydd; llai o amser teithio anghynhyrchiol; llai o allyriadau carbon; a gwell balans rhwng bywyd a gwaith. Ond, nododd rhai aelodau o staff eu bod yn teimlo arwahanrwydd, yn methu cyswllt wyneb yn wyneb, neu weithiau'n profi problemau gyda TGCh. Dylai rheolwyr weithio gyda staff pan fo problemau o'r fath i ganfod datrysiad. Bydd uwch reolwyr yn parhau i fonitro'r ymagwedd ac yn gweithio'n agos gyda staff, undebau llafur ac aelodau i sicrhau y gallwn barhau i addasu ein harferion gweithio i wella effeithiolrwydd a chynnal darpariaeth gwasanaeth. Er enghraifft, anogir staff i barhau i sicrhau perthnasoedd gwaith agos gydag aelodau, gan gynnwys drwy gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd neu ymweliadau safle, er enghraifft.

Mae adolygiad o'n polisi a chanllawiau gweithio'n hyblyg presennol ar y gweill, i gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio hyn. Mae cyfarfodydd am y canllawiau drafft wedi'u trefnu gydag undebau llafur yn ystod mis Rhagfyr. Bydd deunyddiau a sesiynau cyflwyno i gefnogi staff a rheolwyr gyda'r ffyrdd newydd o weithio yn dechrau yn gynnar yn 2023, ar ôl derbyn cytundeb gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol. Bydd cynllun gweithredu 12 mis yn cael ei ddatblygu pan fydd Cefnogwyr Iechyd Meddwl yn eu lle i gefnogi'r ddarpariaeth.

Mae sioeau teithiol rhithiol i staff gyda'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Tachwedd.

## **Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu**

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb i gefnogi dadansoddiadau manylach mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol. Mae gennym wybodaeth am gydraddoldeb ar gyfer 76% o staff, o gymharu â 52% yn flaenorol, a byddwn yn parhau i geisio gwella hyn.

## **Cynllunio'r Gweithlu**

Mae camau cynllunio'r gweithlu ar y gweill i symud ymlaen â chanfyddiadau adolygiadau cynllunio'r gweithlu ar lefel corfforaethol a lefel gwasanaeth. Mae cryn dipyn o ganolbwyntio ar recriwtio, yn enwedig i rolau gofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd adroddiad diweddarar chwe misol ar y cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ym mis Hydref.

Bob mis Awst, mae Dinbych yn cynnal Sioe Dinbych a Fflint. Eleni ymunodd tîm gofal cymdeithasol y cyngor â'r sioe i drafod ymgyrch 'Gwnewch i bobl wenu' i recriwtio pobl i rolau gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych. Darparodd y swyddogion wybodaeth a chyngor am y gwahanol rolau o fewn gofal cymdeithasol, a'r hyfforddiant sydd ar gael, a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu gyrfa gyda hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol.

Ym mis Medi, cynhaliodd y cyngor ffair yn swyddfeydd Caledfryn yn Ninbych, yn arddangos yr ystod eang o yrfaoedd a chyfleoedd swyddi sydd ar gael yn y sir. Roedd rheolwyr a staff ar gael i ateb cwestiynau, ynghyd â chynnig gwybodaeth ar ystod o gyfleoedd gwirfoddoli. Mae holl swyddi'r cyngor yn cael eu hysbysebu ar ein gwefan, ynghyd ag ar dudalennau Swyddi Cyngor Sir Ddinbych ar Facebook.

Mae'r camau hyn hefyd yn cynnwys gwaith i ystyried sut i gynllunio ar gyfer swyddi sydd angen lefel penodol o Gymraeg sy'n uwch na Lefel 1. Mae cynnig ar gyfer sut i gynllunio ar gyfer swyddi sydd angen mwy na Lefel 1 mewn Cymraeg wedi'i ohirio, ond gobeithiwn y gallwn gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun yn ein hadroddiad nesaf.

## **Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Cydymffurfiaeth GDG**

Mae gwaith i fynd i'r afael â'r mater o gydymffurfiaeth gyda gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac asesiadau risg (gan eithrio ar gyfer gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cymru neu ASGC) yn mynd rhagddo. Ein hymagwedd yn ystod pandemig Covid-19 oedd canolbwyntio ar weithwyr newydd ac roedd hynny wedi arwain at ôl-groniad o adnewyddiadau ar gyfer gweithwyr oedd yn gweithio i'r cyngor ers peth amser. Mae recriwtio i rôl gydymffurfiaeth wedi bod yn heriol, ac felly mae dangosyddion GDG ac asesu risg wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella. Mae cydymffurfiaeth GDG wedi gostwng o 93% i 85% yn y cyfnod diwethaf. Rydym wedi penodi swydd dros dro yn awr, gyda deiliad y swydd yn dechrau ym mis Hydref 2022. Bydd deiliad y swydd yn

canolbwyntio ar yr holl rai sydd angen eu hadnewyddu a byddwn yn sefydlu adroddiad monitro bob pythefnos i adolygu effaith y rôl.

## **Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf**

### **Cyfarwyddwyr Corfforaethol**

[Ym mis Gorffennaf penododd y Cyngor Sir](#) ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol newydd. Yn dilyn proses drylwyr, penodwyd Gary Williams, cyn Bennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd, yn Gyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes; ac fe benodwyd Tony Ward, cyn Bennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn Gyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd. Dechreuodd y ddau Gyfarwyddwr newydd ar eu swyddi ar 1 Medi, 2022 a byddant yn gymorth i ddarparu capasiti ar lefel Gweithredol Corfforaethol.

### **Datganiadau Polisi Tâl**

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#), ystyriodd y Cyngor Sir ei Ddatganiad Polisi Tâl, y mae'n rhaid ei gytuno'n flynyddol yn unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011. Mae'n rhaid i Ddatganiadau Polisi Tâl gynnwys yr holl drefniadau tâl presennol ar gyfer grwpiau gweithlu yn y cyngor, gan gynnwys Prif Swyddogion a'r gweithwyr ar y cyflogau isaf. Cyflwynodd y swyddogion ddrafft a ddiweddarwyd a oedd yn cynnwys y dyfarniadau cyflog newydd a drafodwyd yn genedlaethol drwy Gyd-Gyngor Trafod, a chymhariaeth wedi'i diweddarau ar gyfer y cyflog isaf yn erbyn cyflog y Prif Weithredwr. Polisi y cyngor yw y bydd yn cydymffurfio ac yn cyflwyno unrhyw ddyfarniad cyflog a gytunir yn genedlaethol, a derbyniodd y Cyngor Sir y newidiadau a argymhellwyd i'r Polisi Tâl ar gyfer 2022 i 2023, a wnaed gan y Panel Tâl Uwch Arweinyddiaeth.

### **Asedau**

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### **Strategaeth Rheoli Asedau**

Diweddarwyd a derbyniwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Rheoli Asedau yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Yn dilyn hysbysebu ar gyfer swydd newydd yn y Tîm Rheoli

Asedau cafwyd un ymgeisydd ar y rhestr fer i dderbyn cyfweiliad. Yn anffodus, derbyniodd yr ymgeisydd rôl mewn lleoliad arall cyn dyddiad y cyfweiliad. Mae ymarfer recriwtio arall ar y gweill ond efallai y caiff y penderfyniad i benodi ei ohirio oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol.

## **Cam 2 Gwaith ôl-osod Tai Cymdeithasol**

Yn unol â gwaith cynnal a chadw cyfalaf y cyngor, mae cyllid wedi'i ddiogelu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ôl-osod er mwyn optimeiddio arbedion ynni mewn cartrefi ac er budd tenantiaid. Roedd cyllid blaenorol wedi galluogi Cam 1 y gwaith ynni i 55 o dai ar Rhydwen Drive a'r bwriad yw defnyddio'r cyllid diweddaraf i barhau â'r gwaith ar gyfer 44 o dai eraill ar y stryd. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r Gwaith Cyfalaf Cynlluniedig, gydag ymrwymiad wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet i wario £2.5 miliwn. Cytunwyd y dylid symud ymlaen gyda chontract dyfarniad uniongyrchol i Sustainable Building Services, sef y contractwr sy'n cyflawni Cam 1 y gwaith ar hyn o bryd. Byddai Cam 2 hefyd yn galluogi'r 12 prentis o Gam 1 barhau â'u cyflogaeth a chael y cymwysterau perthnasol erbyn diwedd yr ail gam. Mae'r cyngor yn arloesi o ran datblygu gwaith gwella ynni o'r fath, yn enwedig yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda thenantiaid yn elwa o filiau ynni is ar adeg lle bo costau'n cynyddu.

## **Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Canolbwynt Cyfarfod Rhithiol**

Nod y gwaith yw cefnogi cyfarfodydd rhithiol mewn ardaloedd lle bo'r cysylltiad band eang yn wael. Mae'r prosiect yn aros am ganlyniad cyllid grant cyn gallu symud ymlaen ymhellach.

## **Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Cefnogi Busnesau a Phartneriaid i Addasu**

Mae'r cynllun ar gyfer gweithgareddau newid ymddygiad ehangach fel rhan o'n Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol 2022 i 2023 wedi'i ddatblygu yn y cyfnod hwn. Bu oedi fodd bynnag oherwydd newidiadau staff a phrinder staff.

## **Caffael**

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi lechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

## **Diogelu Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio mewn Caffael**

Mae Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i ddarparu cefnogaeth reoli dros dro i'r Tîm Caffael, yn absenoldeb Rheolwr Caffael. Mae problemau capasiti'n parhau ac mae'r rhain yn dal i gael effaith ar gyflymder y cynnydd mewn perthynas â'r gweithredoedd hyn. Mae'r tîm yn y camau olaf o baratoi'r Strategaeth Gaffael ddrafft, a fydd yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio. Yn y cyfnod sydd i ddod, bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i drafod pwysoli gorfodol yn erbyn lleihau carbon mewn gwerthusiadau tendr. Mae angen adnoddau penodol i gefnogi'r maes hwn ac rydym yn gobeithio gallu recriwtio rôl cyfnod penodol i ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio drwy Gaffael yn y misoedd sydd i ddod.

Ers cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ddiwethaf, mae ein Hwb Buddion Cymunedol yn awr yn gofyn am gysylltiad gyda'r grid cenedlaethol yn lle pŵer generadur disel lleol, lle bo'n briodol. Mae'r Hwb hefyd yn ceisio lleihau'r pellter a deithir mewn darpariaeth contract.

## **Arbenigedd Caffael Datgarboneiddio**

Mae'r Tîm Caffael yn gobeithio sicrhau cytundeb ar gyfer rhywun â phrofiad arbenigol yn y tîm i symud ymlaen â gwaith datgarboneiddio yn ein harferion caffael a'r gadwyn gyflenwi. Ond, mae recriwtio ar draws y cyngor a'r sector cyhoeddus ehangach yn parhau i fod yn hynod heriol.

## **Rheolau'r Weithdrefn Gontractau**

Bydd Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn cael eu diweddarau i adlewyrchu deddfwriaeth newydd Caffael Cyhoeddus y DU sydd i ddod yn 2023 i 2024. Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd drwy'r adroddiad hwn yn y cyfamser.

## **Hyfforddiant Contract ar gyfer Staff**

Yn ein diweddariad diwethaf, nodwyd 39 o swyddogion pellach yn ogystal â'r 81 sydd eisoes wedi derbyn yr hyfforddiant, y gellir rhoi eu henwau i lawr ar gyfer hyfforddiant Rheoli Contractau Proactis. Mae pedwar swyddog wedi derbyn lle mewn sesiwn a gynhelir yn y cyfnod nesaf, o fis Hydref i fis Rhagfyr 2022. Bydd y tîm yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar Fodiwl Rheoli Contractau Proactis pan fo'r angen.



## Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Cynnal yr Hwb Buddion Cymunedol

Mae'r Hwb Buddion Cymunedol yn parhau i weithio gyda'r tîm Newid Hinsawdd i ddatblygu ystod o gwestiynau a disgwyliadau Buddion Cymunedol sy'n berthnasol. Mae rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer gwaith prosiect a wnaed ym mhlanhigfa goed y sir yn Llanelwy wedi'i gadarnhau. Gan y bydd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael newydd yn cael ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Gweithgor Gwerth Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o holl gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, gwasanaethau brys a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae Rheolwr Hwb Buddion Cymunedol Sir Ddinbych wedi'i enwebu fel Cadeirydd y Grŵp. Er nad yw hyn yn sicrhau cyllid ar gyfer yr Hwb, bydd yn codi proffil ein hymagwedd.

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2019 i 2021

Teitl	2019 - 2020	2020 - 2021	Statws
Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu rhywedd	15	4	Amherthnasol (cyfrif yn unig)

## Data 2020 i 2022

Teitl	2020 - 2021	2021 - 2022	Statws
Canran y gwahaniaeth yng nghymedr cyfradd tâl bob awr ar gyfer merched - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	-13.5	6.7	Derbyniol
Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy'n ferched - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	79.9	79.3	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Presenoldeb aelodau (cyfredol ac a ddisgwylir), hyd yn hyn yn y flwyddyn (%) <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	89	84	Da
Di-Garbon Net - Cyfanswm tunelledd carbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	10,277	11,656	Rhagorol

## Data 2018 i 2022

Teitl	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Bodlonrwydd cyffredinol gyda'r Cyngor (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	40	32	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Partneriaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda nhw (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	62	Da

Teitl	2018 - 2019	2021 - 2022	Statws
Cynghorwyr a gweithwyr y Cyngor sy'n cytuno fod perthynas weithio dda rhwng arweinwyr gwleidyddol a'r uwch dîm rheoli (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	63	Da
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei berfformiad yn dda (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	28	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei risgiau a heriau'n dda (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	30	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	26	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod gan y Cyngor gynlluniau hirdymor yn eu lle (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	31	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn trin ei weithlu'n dda (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	35	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau ac adnoddau (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	20	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn prynu ei nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd effeithlon a theg (%) - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	Yn newydd yn 2021	25	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

Teitl	Chwarter 2 2021 - 2022	Chwarter 3 2021 - 2022	Chwarter 4 2021 - 2022	Chwarter 1 2022 - 2023	Chwarter 2 2022 - 2023	Statws
Canran y Mesurau Cynllun Corfforaethol sy'n dangos 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	45	43	47	51	51	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiect sydd 'dan fygythiad' - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	2	2	1	1	2	Derbyniol
Canran y prosiectau lle cafodd hyder o ran cyflawni ei ddiweddarau yn y trimis diwethaf - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	90	84	100	95	100	Rhagorol
Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson â datganiad	62	Dim data	64	Dim data	55	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

<b>Teitl</b>	<b>Chwart er 2 2021 - 2022</b>	<b>Chwart er 3 2021 - 2022</b>	<b>Chwart er 4 2021 - 2022</b>	<b>Chwart er 1 2022 - 2023</b>	<b>Chwart er 2 2022 - 2023</b>	<b>Statws</b>
parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor - <b>wedi'i feincnodi'n lleol (bob chwe mis)</b>						
Nifer cronrus o'r adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	0	0	0	0	0	Rhagorol
Nifer cronrus o adroddiadau sicrwydd isel Archwilio Mewnol, y flwyddyn ariannol hyd yn hyn - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	1	3	4	0	0	Rhagorol
Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k)	2,445	2,731	-2,399	1,109	2,661	Amherthnaso l (cyfrif yn unig)
Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor (£k)	7,135	7,135	7,135	7,135	7,135	Amherthnaso l (cyfrif yn unig)

Teitl	Chwart er 2 2021 - 2022	Chwart er 3 2021 - 2022	Chwart er 4 2021 - 2022	Chwart er 1 2022 - 2023	Chwart er 2 2022 - 2023	Statws
Straeon newyddion negyddol fel canran o'r holl straeon newyddion am y cyngor - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	6	8	9	10	11	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y cwynion allanol wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol dros y chwarter diwethaf - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	67	52	60	46	67	Rhagorol
Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	7.54	9.03	9.57	10.18	10	Blaenoriaeth ar gyfer gwella

Teitl	Chwart er 2 2021 - 2022	Chwart er 3 2021 - 2022	Chwart er 4 2021 - 2022	Chwart er 1 2022 - 2023	Chwart er 2 2022 - 2023	Statws
Canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	42	36	43	45	52	Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	38	40	36	39	35	Da
Canran cronus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1,000,000 sy'n cynnwys manteision cymunedol - <b>wedi'i feincnodi'n lleol</b>	88	88	88	100	64	Rhagorol
Nifer cronus o leoliadau profiad gwaith a gynigir o fewn y cyngor	110	134	143	155	163	Amherthnaso l (cyfrif yn unig)

## Camau Gwella

Isod mae camau gwella newydd sydd wedi cael eu nodi drwy'r adroddiad hwn:

- Arolwg o aelodau etholedig i benderfynu amser cyfarfodydd.
- Briffio ar gyfer yr holl gynghorwyr ar Fargen Dwf Gogledd Cymru.



# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

## Ymgyrchoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

I gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol Dros Dro, bydd y Cyngor yn hyrwyddo ymgyrchoedd i gefnogi pobl â nodweddion a ddiogelir neu sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn rheolaidd. O fis Gorffennaf i fis Medi 2022, mae'r cyngor wedi cefnogi'r canlynol drwy hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt:

- Mehefin - hyrwyddo Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru
- Gorffennaf - Codi baner i ddiolch ar ddiwrnod Staff y GIG, Gofal Cymdeithasol a'r Rheng Flaen.
- Gorffennaf- hyrwyddo Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg.
- Awst - hyrwyddo ymgyrch yn tynnu sylw at bwysigrwydd y [Gymraeg mewn gwaith gofal cymdeithasol](#).
- Medi - codi baneri i dalu teyrnged i'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y Llynges Fasnachol, ac i anrhydeddu Diwrnod y Gwasanaethau Brys.

## Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol

Yn ystod mis Gorffennaf i fis Medi, gwnaed gwaith mewn sawl fforwm i gynllunio ar gyfer cyfarfod cyntaf Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a gynhelir ar 26 Hydref. Bydd y Grŵp yn goruchwyllo trefniadau mewnol i gefnogi a monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y cyngor. Ar hyn o bryd cynigir bod y grŵp yn cwrdd bob chwarter, a bydd adolygiad ar ôl y deuddeg mis cyntaf i asesu ei gyflawniadau.

## Rhaglen adsefydlu'r DU

Mae Llywodraeth Cymru wedi adnewyddu'r galwad am unigolion sy'n gallu cynnig cartref i gefnogi'r rhai sy'n adsefydlu yn y DU o ganlyniad i'r erchylltra sy'n digwydd yn Wcráin, ac mae'r cyngor yn eu cefnogi i rannu gwybodaeth a chyrraedd cymunedau lleol. Mae'r cyngor wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i groesawu teuluoedd ac unigolion i Sir Ddinbych, ac mae timau'r cyngor wedi bod yn gweithio i gynnal gwiriadau mewn eiddo a gyflwynir fel lloches. Mae timau hefyd yn gweithio i gefnogi anghenion iechyd a lles pobl, ynghyd â chefnogi teuluoedd i ganfod lle mewn ysgolion ar gyfer eu plant.

## **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#), derbyniodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad y wybodaeth ddiweddaraf am gydymffurfiaeth y cyngor gyda gofynion statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol a'r ysgolion yn barod i ddiwallu eu gofynion statudol o dan y Ddeddf, a ddechreuodd ym mis Medi 2021 ond bydd ei gweithrediad yn cael ei gyflwyno fesul cam tan 2024. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad arall mewn deuddeg mis ynglŷn â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r Ddeddf ac effeithiolrwydd y system ECLIPSE wrth adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, eu monitro, eu rheoli a'u cefnogi.

## **Categoriâu Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

Yn ei [gyfarfod ym mis Medi](#) bu i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ystyried adroddiad gan y Pennaeth Addysg yn amlinellu casgliadau ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar Gategoreiddio Iaith a'i oblygiadau ar gyfer ysgolion a disgyblion Sir Ddinbych. Mae'r polisi presennol ar gyfer gategoreiddio ysgolion wedi bod ar waith ers 2007. Drwy gyhoeddi 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn 2017' ac yn fwy diweddar, Cwricwlwm i Gymru, amlygwyd yr angen i adolygu'r polisi ar gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae nifer y categorïau ysgol yn cael eu lleihau i dri yn y sector cynradd ac uwchradd, gyda dau gategori pontio (Gweler atodiad 1 papurau'r cyfarfod). Yn Sir Ddinbych, bydd y 27 darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Saesneg presennol yn trosglwyddo i Gategori 1, a'r 14 darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i Gategori 3. Bydd angen dyrannu categori i weddill yr ysgolion cynradd sef un o'r tri phrif gategori neu un o'r ddau gategori pontio os yw'n briodol. Gofynnodd y Pwyllgor Craffu bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn yr hydref 2023.

## **Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru 2022**

Yn ei [gyfarfod ym mis Gorffennaf](#) cyflwynwyd trosolwg o Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru 2022 i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, ac roedd wedi'i lunio fel gofyniad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd yr adroddiad yn asesu digonolrwydd gofal a chefnogaeth, ynghyd â sefydlogrwydd y farchnad, wedi'i hysbysu gan Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru. Roedd yn nodi nifer o faterion pryderus sydd eisoes yn hysbys i ni yn Sir Ddinbych, gan gynnwys,

ond heb fod yn gyfyngedig i, lai o gapasiti o fewn y sector cartref gofal a gofal yn y cartref, cynnydd mewn ffioedd a chostau, cynnydd yn y rhai sydd ag anghenion cymhleth, nifer cyfyngedig o leoedd mewn gofal seibiant, a diffyg lleoliadau maeth byr dymor. Mae cryn dipyn o waith eisoes wedi ei gyflawni, ac yn parhau i gael ei gyflawni i fynd i'r afael â'r holl faterion hyn, ac amcanion allweddol y cyngor ar gyfer y 12 mis nesaf fydd ceisio sicrhau sefydlogrwydd mewn gofal cartref, gan chwilio am gefnogaeth gan fentrau bach a darparwyr gwledig; i weithredu polisiâu cyfeillgar i faethu yn Sir Ddinbych ac i baratoi ar gyfer lansio uned asesu preswyl, Bwthyn y Ddôl. Bydd fersiwn terfynol yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn mynd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w gymeradwyo'n derfynol ym mis Tachwedd cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.